# Agenda - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 13 Mawrth 2017

Amser: 14.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6362

SeneddMCD@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

(14.00)

## 2 Ymchwiliad Llais cryfach i Gymru: Sesiwn dystiolaeth 3

(14.00 - 15.00) (Tudalennau 1 - 9)

Y Farwnes Randerson

**CLA(5)-08-17** - Briff y Gwasanaeth Ymchwil

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(15.00 - 15.05) (Tudalennau 10 - 11)

**CLA(5)-08-17 - Papur 1** - Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offeryn y Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

**SL(5)070 - Rheoliadau Maint a Chyfansoddiad Pwyllgorau Awdurdodau Cynllunio Lleol (Cymru) 2017**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Offeryn y Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**SL(5)072 – Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety, Gosod Ffioedd ac Asesiad Ariannol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2017**

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(15.05 – 15.10)

Offeryn y Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**SL(5)065 – Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Cymru) 2017**

(Tudalennau 12 – 59)

**CLA(5)-08-17 – Papur 2** – Adroddiad
**CLA(5)-08-17 – Papur 3** – Rheoliadau
**CLA(5)-08-17 – Papur 4** – Memorandwm Esboniadol [Saesneg yn unig]
**CLA(5)-08-17 – Papur 5** – Meini prawf drafft

## 5 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.7(i) a 21.7(v)

(15.10 – 15.15)

Offeryn y Weithdrefn Penderfyniad Negyddol Drafft

**SL(5)071 – Cod ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 (taliadau uniongyrchol a dewis o lety) a Rhan 5 (codi ffioedd ac asesiadau ariannol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

(Tudalennau 60 – 61)

**CLA(5)-08-17 – Papur 6** – Adroddiad

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 7 yn unig

(15.15)

## 7 Ymchwiliad Llais cryfach i Gymru: Ystyried y dystiolaeth

(15.15 - 15.30)

## 8 Ymchwiliad Llais cryfach i Gymru: Sesiwn dystiolaeth 4

(15.30 - 16.30) (Tudalennau 62 - 72)

Y Gwir Anh. Elfyn Llwyd

**CLA(5)-08-17 – Papur 7** – Tystiolaeth ysgrifenedig

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

(16.30)

## 10 Ymchwiliad Llais cryfach i Gymru: Ystyried y dystiolaeth

(16.30 - 16.45)

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

20 Mawrth 2017 (Casnewydd)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

13 Mawrth 2017

## SL(5)070 – Teitl yr OS

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi gofynion sy'n ymwneud â maint a chyfansoddiad pwyllgorau ac is-bwyllgorau awdurdodau cynllunio lleol perthnasol yng Nghymru sy'n cyflawni swyddogaeth berthnasol.

**Deddf Wreiddiol:** Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

**Fe'u gosodwyd ar**: 27 Chwefror 2017

**Yn dod i rym ar**: 5 Mai 2017

## SL(5)072 – Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety, Gosod Ffioedd ac Asesiad Ariannol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2017

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio amryw Reoliadau a wnaed o dan Rannau 4 a 5 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf").

Mae rheoliad 2 yn diwygio rheoliad 2 o Reoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety) (Cymru) 2015 i'w gwneud yn eglur nad yw dyletswydd yr awdurdod lleol i ddarparu dewis o lety yn gymwys pan angen byrdymor sydd ar berson am y ddarpariaeth o lety. Yna mewnosodir diffiniad o "byrdymor" yn rheoliad 1(3), sef cyfnod nad yw'n hwy nag 8 wythnos.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015. Mae paragraffau (b) ac (h) yn diwygio uchafswm y ffi wythnosol am ofal a chymorth amhreswyl. Mae hwn wedi ei ddiwygio o £60 i £70. Mae paragraff (d) yn cywiro gwall drafftio i'w gwneud yn eglur bod rheoliad 9 yn gymwys mewn perthynas â'r ffioedd am ofal a chymorth preswyl. Mae paragraff (e) yn diwygio rheoliad 11 i sefydlu dau derfyn cyfalaf gwahanol – un a fydd yn gymwys i godi ffioedd am ofal

preswyl a fydd yn cynyddu i £30,000 ac un a fydd yn gymwys i godi ffioedd am ofal amhreswyl a fydd yn aros ar y lefel bresennol o £24,000. Mae paragraff (j) yn gwneud diwygiad canlyniadol i reoliad 26 i adlewyrchu'r ffaith bod dau derfyn cyfalaf. Mae paragraffau (f) a (k) yn diwygio rheoliadau 13 ac 28 yn y drefn honno i gynyddu'r isafswm incwm wythnosol pan fo llety yn cael ei ddarparu i berson mewn cartref gofal o £26.50 i £27.50. Mae paragraff (g) yn diwygio rheoliad 15 i'w gwneud yn eglur bod rhaid, yn dilyn asesiad ariannol diwygiedig, ddyroddi datganiad pellach i'r sawl sy'n cael gofal a bod y ffi ddiwygiedig yn dod yn daladwy (ac y caniateir ei hôl-ddyddio) o'r dyddiad pan gododd yr amgylchiad a arweiniodd at y dyfarniad diwygiedig. Mae paragraff (l) yn gwneud yr un diwygiad i reoliad 30 mewn cysylltiad â dyfarniadau diwygiedig o daliadau uniongyrchol.

Mae rheoliad 4 yn diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015. Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â'r symiau sydd i gael eu diystyru pan fo awdurdod lleol yn cyfrifo incwm at ddibenion y Ddeddf. Mae paragraffau (a) a (b) yn rhoi paragraff 16 newydd yn lle'r hen un fel y bydd diystyru llwyr yn gymwys i godi ffioedd am ofal a chymorth preswyl ac amhreswyl mewn cysylltiad â symiau a geir o dan y Pensiwn Anabledd Rhyfel.

**Deddf Wreiddiol**: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Fe'u gwnaed ar**: 27 Chwefror 2017

**Fe'u gosodwyd ar**: 28 Chwefror 2017

**Yn dod i rym ar**: 10 Ebrill 2017

# SL(5)065 – Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Cymru) 2017

## Cefndir a Phwrpas

Cafodd y Cyngor Gweithlu Addysg ("y Cyngor") ei gadw mewn bodolaeth gan adran 2 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). Mae adran 4 o Ddeddf 2014 yn nodi prif swyddogaethau'r Cyngor. Mae adran 5 o Ddeddf 2014 yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi swyddogaethau ychwanegol i'r Cyngor neu osod swyddogaethau ychwanegol arno.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn rhoi'r swyddogaeth o bennu meini prawf achredu i Weinidogion Cymru. Nodwyd y swyddogaeth hon gynt yn rheoliad 7(2) a (3) o Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012 ("Rheoliadau 2012").

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddirprwyo swyddogaethau achredu, monitro cydymffurfedd â'r meini prawf achredu a thynnu achrediad yn ôl ("y Gwasanaethau") i bwyllgor sydd i gael ei alw y pwyllgor achredu hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol ("y Pwyllgor") (rheoliad 5), ac yn gwneud darpariaeth ynghylch aelodaeth y Pwyllgor hwnnw (rheoliad 6).

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud darpariaeth i sefydliad apelio yn erbyn penderfyniad o'r Pwyllgor i bwyllgor apelau sydd i gael ei alw y pwyllgor apelau achredu hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol ("y Pwyllgor Apelau") (rheoliad 7), ac yn gwneud darpariaeth ynghylch aelodaeth y Pwyllgor Apelau hwnnw (rheoliad 8).

## Gweithdrefn

Negyddol

## Craffu Technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Craffu ar rinweddau

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn drafft hwn (Rheol Sefydlog 21.3(ii): mae'r offeryn o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad).

Nodwyd pwynt adrodd o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2017 ("y Gorchymyn"). Cafodd y Gorchymyn ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 14 Chwefror 2017 a daeth i rym ar 16 Chwefror 2017. Nododd y pwynt adrodd fod y Gorchymyn yn cyfeirio at "y meini prawf achredu", ond ar adeg gwneud y Gorchymyn, nid oedd y rheini ar gael.

Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu "y meini prawf achredu". Er nad yw'r meini prawf achredu drafft yn rhan o'r Rheoliadau hyn, darparwyd copi gyda'r Rheoliadau er gwybodaeth.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**03 Mawrth 2017**

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

## 2017 Rhif (Cy. )

## ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2017

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Parhawyd â bodolaeth Cyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor") gan adran 2 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). Mae adran 4 o Ddeddf 2014 yn nodi prif swyddogaethau'r Cyngor. Mae adran 5 o Ddeddf 2014 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud Gorchymyn sy'n rhoi swyddogaethau ychwanegol i'r Cyngor neu'n gosod swyddogaethau ychwanegol arno. Yn unol â hynny, mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi swyddogaethau ychwanegol i'r Cyngor sy'n ymwneud ag achredu cyrsiau neu raglenni astudio hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol ac â thynnu achrediad yn ôl (erthygl 3).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus yn Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif (Cy. )

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *14 Chwefror 2017* |
| *Yn dod i rym* | *16 Chwefror 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 5 a 47(1) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014(**1**), ar ôl ymgynghori â'r personau hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Yn unol ag adran 47(2) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014, gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2017.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Chwefror 2017.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 2014 dccc 5.

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor y Gweithlu Addysg y parheir â'i fodolaeth gan adran 2 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014;

ystyr "y meini prawf achredu" ("*the accreditation criteria*") yw'r meini prawf ar gyfer yr achrediad neu ar gyfer tynnu achrediad yn ôl a bennir gan Weinidogion Cymru o dan reoliadau a wneir o dan adran 132 o Ddeddf Addysg 2002(**1**).

**Swyddogaethau ychwanegol**

**3.**—(1) Mae'r Cyngor i gael y swyddogaethau o—

(a) achredu cyrsiau neu raglenni hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol ("y Gwasanaeth");

(b) monitro cydymffurfedd cyrsiau neu raglenni achrededig hyfforddiant cychwynnol athrawon â'r meini prawf achredu;

(c) tynnu achrediad cyrsiau neu raglenni hyfforddiant cychwynnol athrawon yn ôl; a

(d) codi ffïoedd mewn cysylltiad â darparu'r Gwasanaeth.

(2) Ni chaiff y ffïoedd a godir gan y Cyngor yn unol â pharagraff (1)(d) fod yn fwy na chost darparu'r Gwasanaeth.

*Kirsty Williams*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
14 Chwefror 2017

(**1**) 2002 (p. 32) fel y'i diwygiwyd gan baragraff 19(1) a (2) o Atodlen 2 i Ddeddf Addysg 2011 (p. 21) a chan baragraff 1(1) a (4) o Ran 1 o Atodlen 3 i Ddeddf Addysg (Cymru) 2014.

# Explanatory Memorandum: The Education Workforce Council (Accreditation of Initial Teacher Training) (Wales) Regulations 2017

The Explanatory Memorandum has been prepared by the Education and Public Services Group of the Welsh Government and is laid before the National Assembly for Wales in conjunction with the above subordinate legislation and under Standing Order 27.1.

**Cabinet Secretary's Declaration**

In my view this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Education Workforce Council (Accreditation of Initial Teacher Training) (Wales) Regulations 2017. I am satisfied that the benefits justify the likely costs

Kirsty Williams
Cabinet Secretary for Education

15 February 2017

## 1. DESCRIPTION

1.1 The Education Workforce Council ("the Council") is continued in existence under section 2 of the Education (Wales) Act 2014 ("the 2014 Act"). Section 4 of the 2014 Act sets out the main functions of the Council and Section 5 of the 2014 Act allows the Welsh Ministers to make an Order conferring or imposing additional functions on the Council. Accordingly, the Education Workforce Council (Accreditation of Initial Teacher Training) (Additional Functions) (Wales) Order 2017 ("the 2017 Order") confers the following additional functions on the Council ("the Accreditation and Compliance Functions"):

a) accrediting courses or programmes of initial school teacher training ("the Service");

b) monitoring compliance of accredited courses or programmes of initial teacher training with the accreditation criteria;

c) withdrawing accreditation of courses or programmes of initial school teacher training; and

d) charging fees in connection with providing the Service

1.2 The Education Workforce Council (Accreditation of Initial Teacher Training) (Wales) Regulations 2017 ("the 2017 Regulations") make provision requiring the Council to delegate the Accreditation and Compliance Functions to a committee.

1.3 Under regulation 7 of the School Teachers' Qualifications (Wales) Regulations 2012 ("the 2012 Regulations") the Higher Education Funding Council for Wales (HEFCW) formally had the function of accrediting an institution for the provision of courses or programmes of study of initial school teacher training, but did not accredit the actual course or programme of study provided. Under the 2017 Order the Council now has the function of accrediting courses or programmes of study of initial school teacher training and not the institutions providing the courses or programmes of study. Institutions accredited by HEFCW (prior to the coming into force date of the 2017 Regulations) will remain accredited until the earlier of the circumstances set out under the 2017 Regulations (regulation 3(3)). This provision is designed to ensure that students enrolled on a course or programme of study of initial school teacher training immediately prior to the coming into force of the 2017 Regulations are not unfairly prejudiced in the event of the accreditation of the institution providing the course or programme of study being withdrawn, before the end the course or programme of study.

## 2. MATTERS OF SPECIAL INTEREST TO THE CONSTITUTIONAL AND LEGISLATIVE AFFAIRS COMMITTEE

2.1 None.

## 3. LEGISLATIVE BACKGROUND

3.1 Qualified for Life[1] sets out clear strategic objectives for the development of the curriculum and qualifications whilst recognising the central role of the education workforce in delivering our vision, through:

- an excellent professional workforce with strong pedagogy based on an understanding of what works,
- leaders of education at every level working together in a self-improving system, providing mutual support and challenge to raise standards in all schools.

3.2 In his report, *Successful Futures*, Professor Graham Donaldson set out a radical vision for the future of the education system in Wales. Professor Donaldson was clear that realisation of his proposals for the new curriculum must be firmly based on the principle of subsidiarity, with practitioners being empowered to make decisions in their schools and classrooms, about how the curriculum is developed and delivered to meet the needs of their local context.

3.3 Professor Furlong's independent report *'Teaching Tomorrow's Teachers'*[2], was published on 9th March 2015. The report recommended that the process of accrediting programmes of initial teacher education should be the responsibility of the professional regulatory body, as it is in other parts of the UK and teaching and non-teaching professional bodies across the world; and that an 'Accreditation of Initial Teacher Training Committee' should be established within the Council in order to undertake this function.

3.4 As currently established the Council focuses on a few main functions. It sets a code of professional conduct, upholds the required professional standards, maintains a register of education practitioners and provides advice on key issues affecting the profession However, the 2014 Act allows the Welsh Minister to confer additional functions on the Council.

3.5 The expanded role of the Council in relation to the accreditation of Initial Teacher Training is in line with the ethos that the profession must take responsibility for leading changes in teaching, leadership and for developing and supporting the profession collectively. This approach supports the views of Professors' Donaldson and Furlong about the conditions for delivering their recommendations, and it is in line with effective professional governance in a range of other professions and in the education system in Northern Ireland, Republic of Ireland, Scotland and countries outside of the UK (Australia, New Zealand and Canada).

3.6 Part 3 of the 2017 Regulations requires the Council to delegate the accreditation function ("the Service"); the monitoring of compliance of accredited courses or programmes of Initial School Teacher Training (ITT) with the accreditation criteria; and the withdrawal of the accreditation of courses or programmes of ITT to a committee ("the Committee") under (Regulation 4). Regulation 5 also makes provision about the membership of the Committee.

3.7 Part 3 of the 2017 Regulations also makes provision for the provider to appeal a decision of the Committee to an appeals committee ("the Accreditation of Initial School

1 http://gov.wales/docs/dcells/publications/141001-qualified-for-life-en.pdf

2 http://gov.wales/docs/dcells/publications/150309-teaching-tomorrows-teachers-final.pdf

Teacher Training Appeals Committee") (Regulation 7), and makes provision about the membership of that Appeals Committee (Regulation 8).

3.8 Part 4 of the 2017 Regulations makes provision about the proceedings of the Committee and the Appeals Committee.

3.9 These Regulations are made under the Negative procedure.

## 4. PURPOSE AND INTENDED EFFECT OF THE LEGISLATION

4.1 There are a range of measures for ensuring the quality of training provisions relating to the education workforce. In terms of ITT, the Welsh Government does not directly control what courses are offered at particular institutions, including whether they are offered through the medium of Welsh. However, it manages initial teacher supply through the setting of overall intake target allocations for recruitment to ITT in Wales. These are notified to HEFCW, which is required (under the Education Act 2005, section 86(6)(a)) to have regard to any forecast of demand for newly qualified teachers that is notified to it by the Welsh Ministers).

4.2 The Welsh Government has set out to create, systematically, a new climate of higher expectations for schools[3]. While ITT is recognised as a major contributor to teaching quality in most countries with advanced school systems, the evidence from inspection and self-evaluation shows that ITT provision in Wales is not meeting the standards set by the highest performers globally

4.3 The Welsh Government through the 2017 Regulations will deliver enhanced functions for the Council which will allow them to establish the Accreditation of Initial School Teacher Training Committee, to take on the role of accrediting ITT programmes of study. This enhanced function would mean that specific aspects of ITT would no longer be undertaken by HEFCW (as recommended in *Teaching Tomorrow's Teachers*).

4.4 This new approach is intended to deliver the improvements we all seek to learner outcomes, by investing in the development of a skilled and committed professional workforce.

4.5 In 2015, a task and finish group (chaired by Professor Furlong) was established to develop the reconceptualised criteria for accrediting ITT programmes in Wales, the Teacher Education Accreditation Group. The aim of the new criteria is to improve the quality and consistency of provision and introduce a new approach to ITT in Wales.

4.6 The criteria for the accreditation of initial teacher training programmes in Wales, sets out the criterion that has been developed by the Teacher Education Accreditation Group and is available at: www.learning.gov.wales. ITT entry requirements and criteria for individuals will remain the same.

---

[3] Tabberer, R. (2013) A Review of Initial Teacher Training in Wales http://gov.wales/docs/dcells/publications/131007-review-of-initial-teacher-training-in-wales-en.pdf

4.7 The arrangements for accrediting ITT provision however, will need to be in place by no later than autumn of 2017 to ensure all new courses of ITT from September 2019 are accredited against the revised accreditation criteria.

4.8 The cycle for accreditation would happen over 5 years, although this may be for just 1 or 2 years transitionally. It will commence with all programmes needing to be submitted for accreditation in line with the following timetable. It is proposed that no new ITT programmes in Wales may run from September 2019 without approval from the Accreditation of Initial School Teacher Training Committee

| Action | Date |
|---|---|
| The Digital Competence Framework is available to schools and settings in Wales | 1st September 2016 |
| Partnership to send "statement of intent" to submit a programme for accreditation to the Welsh Government | By 6th January 2017 |
| Partnership to submit ITE programme/s to the Accreditation of Initial School Teacher Training Committee for accreditation against accreditation criteria | By 1st December 2017 |
| The Accreditation of Initial School Teacher Training Committee to assess programmes and make a decision to award, defer or refuse accreditation | By June 2018 |
| New curriculum and assessment arrangements available | September 2018 |
| ITT Partnership to commence marketing of their programme to prospective student teachers | 3rd September 2018 |
| ITT Partnership to commence delivery of new programme | 2nd September 2019 |
| New curriculum and assessment arrangements in place | September 2021 |

## 5. CONSULTATION

5.1 Details of the consultation undertaken are included in section 8 within the RIA below.

## 6 PART 2 – REGULATORY IMPACT ASSESSMENT

### Establishment of the Accreditation of Initial Teacher Training Committee

6.1 Future ITT programmes of study in Wales must be capable of delivering newly qualified, reflective practitioners with the appropriate qualifications, skills and appetite to deliver against the improved education agenda as set out in Qualified for Life. It is equally important that the work to reform ITT outlined in *Teaching Tomorrow's Teachers* complements the work being undertaken elsewhere on the implementation of the new Curriculum and Assessment arrangements as set out in Successful Futures and *A curriculum for Wales – a curriculum for life*[4].

[4] A curriculum for Wales – a curriculum for life sets out the plan for taking forward the recommendations within Successful Futures: Independent Review of Curriculum and Assessment Arrangements in Wales.

6.2 The Accreditation of Initial School Teacher Training Committee will comprise of members of the profession, experts in the field of initial teacher education, practising or very recent head teacher and a representative of Estyn. The Committee would ultimately be responsible for accrediting all programmes of ITT.

6.3 The General Teaching Council (GTC) Scotland, the Teaching Council for Ireland (TCI) and the GTC Northern Ireland all have a role in the accreditation of programmes of ITT. The TCI model was put in place 5 years ago and incorporated many of the best practices from GTC Scotland and across the world. TCI also charge a fee for the consideration of applications which is payable by HEIs participating in the accreditation process.

## 7. OPTIONS

Option 1: Do Nothing

7.1 If we were to do nothing, we will not be able to implement reforms to the way ITT is accredited, an essential factor in ensuring an improvement in educational performance in schools.

Cost

7.2. There would be no new cost implications from this option.

Benefits

7.3 There would be no benefits from this option.

Option 2: Make the Legislation

7.4 The introduction of these Regulations will allow us to move away from the current process of accrediting training providers to be replaced by the accreditation of the ITT programmes of study. This will enable more specific consideration of how the programmes will raise the quality of provision and attract the right people with the right skills, qualifications and an aptitude for teaching to enter teacher training.

Cost

7.5 The Accreditation of Initial Teacher Training Committee will require initial start up costs of £260k and will be paid over two financial years 2016/17 and 2017/18.

7.6 This funding will allow for the appointment of a highly credible, high-calibre Chair, two Deputy Chairs, and all associated set up costs (recruitment of staff, staff costs, administrative costs and equipment); and all based on the costs of similar arrangements in Scotland and Ireland. It is vital that arrangements are in place to facilitate a thorough review and Quality Assured accreditation process with the necessary rigour and support to ensure that all ITT programmes are thoroughly and appropriately reviewed in order that decisions regarding accreditation can be made in the time permitted. The arrangements for accrediting

ITT provision will need to be in place by September 2018 to ensure all courses of ITT from 2019/20 are accredited against the revised accreditation criteria.

- £30k will be required in 2016-17, which will be met by the 'Pedagogy' budget within the Raising School Standards BEL 5511.
- The remaining £230k in 2017-18, will cover costs relating to the work undertaken by the Accreditation of Initial Teacher Training Committee on the assessment of the first round of programmes submitted by the partnerships. The funding will cover:
  - The Council's staff costs, recruitment of up to 3 staff – 2 permanent and 1 fixed term (staff to be in post by 1st June 2017).
  - Training of Committee members. The Welsh Government will appoint the Chair and two Deputy Chairs and the Council will appoint up to 15 panel members to sit on the Committee, as and when required; the process for which will be set out in *'The Education Workforce Council (Accreditation of Initial Teacher Training) Regulations'*. These Regulations will be laid and are subject to the approval of the, by the National Assembly.
  - The remuneration of Committee members and the requirements for site visits. We envisage, approximately 25 programmes being submitted for accreditation, with up to 3 members days spent on each programme.

- This funding requirement will again be met from the 'Pedagogy' budget within the Raising School Standards BEL 5511.

- The ongoing costs for the accreditation process following the first round of applications will be met through the charging of fees payable by the partnerships participating in the accreditation process. The fee level will be subject to a separate consultation undertaken by the Council, with a system of charging in place by 31 August 2018.

<u>Benefits</u>

7.7 Central to the vision underpinning the new accreditation criteria for ITT programmes, is the recognition that high quality professional training and education necessarily involves a number of different modes of learning. Some dimensions of teaching can only be learned experientially while other forms of learning are intellectually based. However, the largest part of all teacher education should be based on learning that is both rigorously practical and intellectually challenging. International evidence stresses that high quality teacher education involves both aspects: developing strong links between theory and practice in a way that helps students to understand and explore the interconnectedness of education theories and classroom practices.

7.8 As the OECD and others[5] now recognise that the very best examples of teacher training and education internationally are based on this dual form of learning. This is the form of teacher education that is going to be essential for Wales if the vision for our schools is to be achieved. This has important consequences for both schools and universities and for how they collaborate.

[5] OECD (2012) Strong Performers and Successful Reformers in Education: Lessons from PISA for the United States. http://www.oecd.org/pisa/46623978.pdf BERA:RSA (2014) The Role of Research in Teacher Education: Reviewing the evidence. Interim report. London: BERA

7.9 It is anticipated that in the future all ITE programmes will be led by a 'partnership', that is a HEI working in close collaboration with a number of 'lead partnership schools'. It is this partnership that will bring forward the programme for accreditation. If truly collaborative teacher training and education is to be achieved then 'the partnership' – the HEI together with all of their partner schools - must take joint responsibility for their contributions to the programme

7.10 The introduction of the 2017 Regulations will enable us to move away from the current process of accrediting training providers to be replaced by the accreditation of the ITT programmes of study. This in turn will allow a thorough review and Quality Assured accreditation process to be undertaken with the necessary rigour and support to ensure that all ITT programmes are thoroughly and appropriately reviewed.

7.11 More specific consideration will be given on how the programmes will raise the quality of provision and attract the right people with the right skills, qualifications and an aptitude for teaching to enter teacher training. These changes are intended to improve the quality of ITT in Wales and in turn raise the standard of teaching in our schools.

## 8. CONSULTATION

8.1 The Welsh Government undertook a consultation on the "Draft criteria for the accreditation of Initial Teacher Education programmes in Wales and the proposal for the Education Workforce Council to accredit initial teacher education"[6]

8.2 A summary of responses is available at:

https://consultations.gov.wales/consultations/initial-teacher-education-accreditation

https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/achredu-addysg-gychwynnol-i-athrawon

## 9. COMPETITION ASSESSMENT

9.1 There is no market implications associated with the making these Regulations.

## 10. IMPACT OF THE PROPOSED LEGISLATION ON DUTIES OF THE WELSH MINISTERS AS SET OUT IN THE GOVERNMENT OF WALES ACT 2006

10.1 The Regulations are not considered to have any specific impact on the duties of the Welsh Ministers as set out in the Government of Wales Act 2006.

## 11. IMPACT UPON THE VOLUNTARY SECTOR

11.1 None

[6] https://consultations.gov.wales/sites/default/files/consultation doc files/160923 consultation document en.pdf

## 12. EQUALITY OF OPPORTUNITY AND WELSH LANGUAGE

12.1 No issues relating to these duties are considered to arise from the making of these Regulations.

## 13. SUSTAINABLE DEVELOPMENT

13.1 The aim of these Regulations is to deliver the improvements we all seek to learner outcomes, by investing in the development of a skilled and committed professional workforce.

# Atodiad: Meini prawf drafft ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru

## Crynodeb gweithredol

1. Yn hydref 2015, sefydlodd y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau grŵp gorchwyl a gorffen i ddatblygu meini prawf newydd ar gyfer achredu addysg gychwynnol athrawon (AGA) yng Nghymru. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r meini prawf a fydd yn ofynnol i bob rhaglen newydd a phresennol addysg gychwynnol athrawon (AGA) eu bodloni ar gyfer achrediad yn y dyfodol. Mae'r ddogfen wedi'i hysgrifennu ar gyfer holl ddarparwyr cyfredol a darpar ddarparwyr AGA, ond dylai hefyd fod o ddiddordeb i bawb sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru.
2. O dan y trefniadau newydd, bydd Estyn yn parhau i chwarae rôl hollbwysig yn cynnal a gwella ansawdd AGA. Ceir cynigion ar sut bydd Estyn, yn y dyfodol, yn gweithio ochr yn ochr â'r broses achredu a nodir yn Atodiad 1.
3. Mae'r weledigaeth ar gyfer addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru a gyflwynir yn y ddogfen hon yn cael ei hategu gan gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yn y dyfodol a nodir yn ei dogfen *Cymwys am oes*[1]. Mae meithrin gallu'r holl ymarferwyr ac arweinwyr yn rhagofyniad hanfodol i'r cynlluniau hynny. Bydd y meini prawf achredu newydd yn sicrhau bod pob cwrs addysg gychwynnol athrawon yn bodloni dyheadau uchel y llywodraeth.
4. Yn ganolog i'r weledigaeth sy'n sail i'r meini prawf newydd mae'r gydnabyddiaeth bod addysg broffesiynol o ansawdd uchel o reidrwydd yn cynnwys nifer o wahanol ddulliau o ddysgu. Gall rhai dimensiynau o addysgu ond cael eu dysgu drwy brofiad tra bod mathau eraill o ddysgu yn ddeallusol yn eu hanfod. Fodd bynnag, dylai'r rhan helaethaf o'r holl addysg athrawon fod yn seiliedig ar ddysgu sydd yn fanwl ymarferol ac yn her ddeallusol ar yr un pryd.

---

[1] Llywodraeth Cymru (2014). *Cymwys am Oes – Cynllun gwella addysg*

5. Fel mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ac eraill[2] bellach yn cydnabod bod yr enghreifftiau gorau oll o addysg athrawon yn rhyngwladol yn seiliedig ar y ffurf ddeuol hon o ddysgu. Dyma'r ffurf o addysg athrawon sy'n mynd i fod yn hanfodol i Gymru os yw gweledigaeth y llywodraeth ar gyfer ei hysgolion yn mynd i gael ei chyflawni. Mae gan hyn oblygiadau pwysig ar gyfer ysgolion a phrifysgolion a'r modd maent yn cydweithio.
6. Os yw ysgolion yn mynd i gael y dasg o ddarparu cyfleoedd hyfforddi systematig a strwythuredig mewn perthynas â phob un o feysydd craidd y cwricwlwm addysg athrawon, yna bydd angen iddynt gael yr hyfforddiant a'r adnoddau i gymryd y cyfrifoldeb hwnnw. Yn y dyfodol, mae'n debygol y bydd nifer llai o ysgolion yn cymryd rhan mewn addysg gychwynnol athrawon nag sydd ar hyn o bryd, ond gyda niferoedd uwch o fyfyrwyr ar gyrsiau athrawon yn ymwneud â nhw mewn ffyrdd gwahanol.
7. Os mai tasg sylfaenol prifysgolion yw darparu mynediad i athrawon dan hyfforddiant at wybodaeth broffesiynol nad yw ar gael fel arfer mewn ysgolion, o fewn eu cyfadrannau addysg bydd angen bod ganddynt y strwythurau staffio, strategaethau datblygu staff a'r math o 'ddiwylliant ysgolheigaidd' a fydd yn sicrhau bod eu holl addysgwyr athrawon wedi'u paratoi i wneud y cyfraniadau hyn.
8. Mae goblygiadau hefyd ynghylch sut mae ysgolion a Sefydliadau Addysg Uwch yn gweithio gyda'i gilydd. Ar lefel y rhaglen, mae angen eu llunio fel bod yna gyfleoedd strwythuredig ar gyfer dwyn ynghyd y gwahanol fathau o wybodaeth broffesiynol a ddarperir gan bob partner. Gellir cyflawni'r mathau hyn o ymgysylltu mewn amrywiaeth eang o ffyrdd.
9. Mae goblygiadau i gynllunio ar y cyd hefyd. Dim ond os yw prifysgolion a grŵp o 'ysgolion partneriaeth arweiniol' yn cydgysylltu i gynllunio'r rhaglen yn ei chyfanrwydd y ceir y cydlyniad sydd ei angen.
10. Yn olaf, mae angen atebolrwydd ar y cyd. Er mwyn gwireddu addysg athrawon gwirioneddol gydweithredol, rhaid i'r 'bartneriaeth' – y SAU ynghyd â phob un o'u hysgolion partner - gymryd cyfrifoldeb ar y cyd am eu cyfraniadau at y rhaglen.
11. Mae'r meini prawf newydd wedi'u rhannu'n dair prif adran.

---

[2] OECD (2012) Strong Performers and Successful Reformers in Education: Lessons from PISA for the United States. http://www.oecd.org/pisa/46623978.pdf; BERA:RSA (2014) The Role of Research in Teacher Education: Reviewing the evidence. Interim report. London: BERA

12. ***Strwythurau a phrosesau rhaglenni***. O ran arweinyddiaeth a rheolaeth rhaglenni, mae'r meini prawf yn nodi'r hyn sy'n ofynnol gan bartneriaethau ysgol-SAU. Bydd yn ofynnol i raglenni ddynodi nifer o 'ysgolion partneriaeth arweiniol' a fydd yn cyfrannu'n llawn at arweinyddiaeth a rheolaeth y rhaglen, gan gynnwys cynllun a chynnwys y rhaglen a dethol myfyrwyr; byddant hefyd yn chwarae rhan lawn er mwyn sicrhau ansawdd pob rhaglen a hunan-arfarnu.
13. Mae'r meini prawf yn nodi'r hyn sy'n ofynnol gan yr holl ysgolion partneriaeth (yr ysgolion partneriaeth arweiniol ac eraill) o ran:
    - y dewis o ysgolion
    - yr angen i ddatblygu ymagwedd 'ysgol gyfan' at addysg athrawon dan arweiniad uwch athrawon
    - staffio'r ysgolion a chyfrifoldebau dros gefnogi dysgu athrawon dan hyfforddiant gan gynnwys mentora a darparu cyfleoedd strwythuredig i fyfyrwyr fyfyrio ar eu hymarfer
    - cyfleoedd datblygu staff
    - cyfleusterau ysgolion
    - cyfranogiad ysgolion yn rheolaeth y rhaglen ar y cyd.
14. Mewn perthynas â Sefydliadau Addysg Uwch mae'r meini prawf yn nodi:
    - lefelau staffio gofynnol, cymwysterau staff a gofynion i'r staff fod yn 'ymchwil weithredol'
    - cyfrifoldebau SAU dros athrawon dan hyfforddiant, gan gynnwys y gefnogaeth y mae'n rhaid iddynt ei darparu i ddatblygu eu sgiliau mewn llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol a'r Gymraeg er mwyn sicrhau eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cyd-destun addysgu sydd o'u blaenau
    - cyfleoedd datblygu staff
    - cyfleusterau'r SAU a lles myfyrwyr
15. ***Mewnbynnau rhaglenni*** Mae'r adran hon yn amlinellu'r wybodaeth y bydd angen i raglenni AGA yng Nghymru eu darparu mewn perthynas â:
    - fframwaith cysyniadol y cwrs
    - amcanion y cwrs
    - cynllun y cwrs a meysydd astudio
    - gofynion mynediad a gweithdrefnau dethol
    - astudiaethau craidd

- astudiaethau proffesiynol ac addysgeg
- astudiaethau pwnc
- profiad mewn ysgol
- asesiad
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- asesu myfyrwyr cyrsiau addysg

16. ***Safonau rhaglenni (deilliannau)*** Mae'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (SAC) yn sylfaenol i bawb ym maes addysg, gan roi ymdeimlad cryf o gyd-amcanu. Bydd angen i raglenni sicrhau bod deilliannau myfyrwyr y cyrsiau athrawon yn adlewyrchu'r safonau hyn yn fanwl mewn perthynas ag agweddau megis gwerthoedd proffesiynol, y cwricwlwm, addysgeg, asesu, yr amgylchedd dysgu, y cyd-destun ehangach, myfyrio a dysgu proffesiynol, arweinyddiaeth ac ymrwymiad myfyrwyr y cyrsiau athrawon i'w dysgu proffesiynol yn y dyfodol.

# Adran A – Gweledigaeth

## 1. Y cyd-destun polisi

Mae'r weledigaeth ar gyfer addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru a gyflwynir yn y ddogfen hon yn cael ei hategu gan gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yn y dyfodol a nodir yn ei dogfen *Cymwys am oes*[3]*:*

> Bydd dysgwyr yng Nghymru yn mwynhau addysgu a dysgu sy'n eu hysbrydoli nhw i lwyddo, mewn cymuned addysg sy'n cydweithredu ac sy'n anelu at fod yn wych, lle mae potensial pob plentyn a pherson ifanc yn cael ei ddatblygu (Llywodraeth Cymru, 2014:1).

Fel mae'r Llywodraeth ei hun yn nodi, mae 'meithrin gallu'r holl ymarferwyr ac arweinwyr, gan gynnwys y gallu i fyfyrio ar eu hymarfer eu hunain a'i werthuso, i gynllunio a chreu cwricwlwm sy'n berthnasol, ymestynnol a symbylol ac i gymhwyso egwyddorion ac arferion addysgegol priodol' yn hanfodol i wireddu'r dyheadau hyn. (Llywodraeth Cymru 2015: 8)[4]. Mae meithrin gallu proffesiynol yn un o ddibenion craidd addysg gychwynnol athrawon.

Bydd y meini prawf achredu newydd yn sicrhau bod yr holl gyrsiau addysg gychwynnol athrawon yn bodloni dyheadau uchel[5] y llywodraeth. Maent yn diffinio beth sy'n hanfodol ar gyfer darpariaeth o ansawdd uchel, gan gynnwys yr angen i ddarparwyr rhaglenni:

- sicrhau bod sefydliadau addysg uwch (SAU) ac ysgolion yn cydweithio'n agos fel partneriaid i gynllunio a hwyluso AGA
- denu ymgeiswyr o safon uchel i'r proffesiwn addysgu
- denu pobl o safon uchel fel addysgwyr athrawon yn yr ysgol a SAU a chefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus

---

[3] Llywodraeth Cymru (2014). *Cymwys am Oes – Cynllun gwella addysg*
[4] Llywodraeth Cymru (2015). *Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes*
[5] O dan y trefniadau newydd ar gyfer achredu rhaglenni, bydd Estyn yn parhau i chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gynnal a gwella ansawdd AGA. Ceir manylion sut bydd Estyn, yn y dyfodol, yn gweithio law yn llaw â'r broses achredu yn Atodiad 1

- sicrhau cysondeb yn ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr ar draws yr holl raglenni AGA, gan arddangos arfer proffesiynol o ansawdd uchel y gall myfyrwyr ei efelychu yn eu haddysgu eu hunain
- paratoi athrawon newydd i wneud y canlynol:
  - deall natur gyfnewidiol cymdeithas yn yr 21ain ganrif ac anghenion pobl ifanc mewn addysg
  - meithrin mewn pobl ifanc gariad at ddysgu, eu dysgu sut i ddysgu
  - meithrin ystafelloedd dosbarth cynhwysol sy'n bodloni anghenion pob disgybl/myfyriwr
  - cymryd rhan yng nghontinwwm addysg athrawon, y mae AGA yn sylfaen iddo, meithrin ymrwymiad athrawon dan hyfforddiant i ddysgu proffesiynol gydol oes
  - adeiladu cymuned ddysgu fywiog, gan weithio ochr yn ochr â chydweithwyr, rhieni, disgyblion/myfyrwyr ac eraill
  - datblygu gwybodaeth a sgiliau ymchwil, fel defnyddwyr ymchwil ac fel cyfranogwyr ynddo
  - bod yn arloesol ac yn greadigol wrth arwain newid yn y cwricwlwm, asesu ac addysgeg
  - arfer cyfrifoldeb ac atebolrwydd proffesiynol
- datblygu cymhwysedd athrawon dan hyfforddiant i ddefnyddio TGCh ar gyfer dysgu ac addysgu
- meithrin gwerthfawrogiad athrawon dan hyfforddiant o'r iaith Gymraeg a darparu cyfleoedd iddynt ddatblygu eu hyfedredd yn y Gymraeg
- datblygu gwerthfawrogiad athrawon dan hyfforddiant o amrywiaeth diwylliannol mewn cymdeithas ac yn yr ystafell ddosbarth
- sicrhau llythrennedd a rhifedd o safon uchel ymhlith yr athrawon dan hyfforddiant eu hunain.

## 2. Profiadau dysgu athrawon dan hyfforddiant

Yn ganolog i'r weledigaeth sy'n sail i'r meini prawf newydd mae'r gydnabyddiaeth bod addysg broffesiynol o ansawdd uchel o reidrwydd yn cynnwys nifer o wahanol ddulliau o ddysgu. Ar y naill law, mae yna ddimensiynau addysgu, megis sut i reoli ystafelloedd dosbarth, y gellir ond eu dysgu drwy brofiad. Gall prifysgolion ddarparu cyfleoedd ar gyfer 'meicro-ddysgu' yn niogelwch ystafell seminar a gall ymarferwyr profiadol roi cyngor da ond hyd nes eu bod mewn gwirionedd yn dechrau cymryd y cyfrifoldeb o reoli grŵp mawr o bobl ifanc ni fydd athrawon dan hyfforddiant yn dechrau ymgysylltu go iawn â chymhlethdod addysgu.

Dimensiwn pwysig arall o'r siwrnai ddysgu broffesiynol ar gyfer athrawon dan hyfforddiant yw sut maen nhw'n dysgu i ddod o hyd i'r hunan dysgu o'u mewn. Ni ellir dysgu hyn, chwaith, mewn gwirionedd, allan o'i gyd-destun. Mae'n ffurf 'ymgorfforedig' o ddysgu y gellir ond ei ddysgu mewn gwirionedd wrth wneud gwaith athro. Dim ond wedyn gall eraill helpu'r athro dibrofiad, trwy fentora a hyfforddi, i ddatblygu'r agwedd honno ar ei hunaniaeth addysgu.

Ar ben arall y continwwm mae'r ffurfiau hynny o ddysgu sy'n bennaf, ond nid yn gyfan gwbl, â sail ddeallusol iddynt, lle mai'r nod yw gwella gwybodaeth a dealltwriaeth addysgwyr proffesiynol ifanc o fyd cymhleth addysgu. Er enghraifft, disgwylir y bydd athrawon sydd newydd gymhwyso i ryw raddau'n gyfarwydd â hanes polisi ymarfer addysgol yng Nghymru. Disgwylir iddynt hefyd wybod rhywbeth am y gymdeithas gyfoes yng Nghymru; er enghraifft, y ffaith bod Cymru yn gymdeithas ddwyieithog gyda rhyw 23% o bobl ifanc wedi'u haddysgu mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog[6]; y ffaith bod yng Nghymru rhyw 31% o plant wedi'u dosbarthu fel rhai sy'n byw mewn tlodi (y gyfran uchaf yn y DU)[7] a'r ffyrdd y gall hynny effeithio ar addysgu a dysgu yn y dosbarthiadau lle maent yn gweithio. Mae dysgu am y materion hyn yn amlwg yn berthnasol i ymarfer athrawon newydd ond, ar yr un pryd, mae'r cysylltiadau hynny'n gymhleth ac weithiau'n anuniongyrchol.

---

[6] Llywodraeth Cymru (2016) Canlyniadau'r Cyfrifiad Ysgolion, 2016 SDR 87/2016 Tabl 2 a 3 Ysgolion Canol, Cynradd a Uwchradd http://gov.wales/docs/statistics/2016/160727-school-census-results-2016-cy.pdf

[7] Llywodraeth Cymru (2015) Strategaeth Tlodi Plant Cymru http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/150327-child-poverty-strategy-walesv2-cy.pdf

Mae rhai agweddau ar addysg gychwynnol athrawon, felly, yn seiliedig yn bennaf ar ddysgu trwy brofiad tra bod eraill yn codi'n bennaf o ddysgu sydd â sail ddeallusol iddo. Fodd bynnag, mewn rhaglen addysg athrawon â sail gadarn iddi, mae'r ddau yma'n ffurfiau lleiafrif o ddysgu. Mae'r rhan helaethaf o bob rhaglen addysg athrawon – yr elfennau hynny sy'n delio â materion craidd y cwricwlwm, addysgeg ac asesu - yn seiliedig neu i fod yn seiliedig ar ddysgu sydd yn fanwl ymarferol ac yn her ddeallusol ar yr un pryd.

Trwy fod yn barod i wahaniaethu eu haddysgu yn effeithiol mewn perthynas ag anghenion dysgu'r holl fyfyrwyr ysgol yn eu hystafelloedd dosbarth, er enghraifft, mae angen i fyfyrwyr cyrsiau athrawon arsylwi a dysgu ochr yn ochr ag athrawon profiadol ac effeithiol wrth iddynt gynllunio ac ymarfer gwahaniaethu. Mae angen cefnogaeth a hyfforddiant ar athrawon dan hyfforddiant yn y broses o wahaniaethu eu cynllunio gwersi a'u haddysgu eu hunain hefyd. Er mwyn datblygu'n gwbl broffesiynol, fodd bynnag, mae angen iddynt wneud llawer mwy na hyn. Mae angen iddynt wybod a deall damcaniaethau sydd wedi'u hen brofi ynghylch sut mae pobl ifanc yn dysgu ac yn dysgu yn wahanol i'w gilydd; mae angen iddynt ddeall sut mae pobl ifanc yn datblygu'n ddeallusol ac yn emosiynol ac yn datblygu'n wahanol; ac mae angen iddynt ddeall rhywbeth am strwythur gwybodaeth yn y pynciau maent yn eu dysgu fel y gallant ddadagregu cysyniadau allweddol a'u hail-greu mewn gwahanol ffyrdd er mwyn hwyluso dysgu *pob* disgybl yn eu gofal. Mae sicrhau eu bod wedi'u paratoi ar gyfer gwahaniaethu'r addysgu yn golygu hyfforddiant ymarferol sydd wedi'i gynllunio'n ofalus ond mae hefyd yn golygu bod yn rhaid i ni ddarparu cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant ymgysylltu â'r gorau sy'n hysbys o ymchwil, o theori ac ymarfer mewn mannau eraill ynghylch y prosesau cymhleth hyn.

Trwy ddwyn at ei gilydd y gwahanol ffurfiau hyn o ddysgu proffesiynol, mae athrawon dan hyfforddiant yn dysgu sut i reoli eu harferion eu hunain. Maent yn dysgu datblygu, myfyrio ynghylch eu 'damcaniaethau' eu hunain ymarfer proffesiynol a'u hamddiffyn, a thrwy hynny'n datblygu'n athrawon gwirioneddol broffesiynol yn eu rhinwedd eu hunain.

## 3. Ysgolion a sefydliadau addysg uwch yn gweithio mewn partneriaeth

Fel y mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ac eraill[8] bellach yn cydnabod, mae’r enghreifftiau gorau oll o addysg athrawon yn rhyngwladol yn seiliedig ar y ffurf ddeuol hon o ddysgu. Mewn gwledydd megis y Ffindir a Singapore, cynigir rhaglenni i athrawon dan hyfforddiant sy'n darparu hyfforddiant ymarferol, trylwyr, systematig sydd wedyn yn cael ei gyfuno â chyfleoedd i herio a myfyrio trwy ymgysylltu deallusol gyda mathau eraill o wybodaeth broffesiynol, gwybodaeth sy'n deillio o theori, ymchwil ac o ymarfer rhagorol mewn mannau eraill. At hynny, dyma ffurf ar addysg athrawon a fydd yn hanfodol i Gymru os yw gweledigaeth y llywodraeth ar gyfer ei hysgolion, a nodwyd yn *Cymwys am Oes* (2014) ac yn *Cwricwlwm i Gymru - cwricwlwm am oes* (2015), yn mynd i gael ei chyflawni. Mae canlyniadau pwysig yn sgil hyn, fodd bynnag, ar gyfer ysgolion a phrifysgolion a’r modd y maent yn cydweithio.

Os yw ysgolion yn mynd i gael y dasg o ddarparu cyfleoedd hyfforddi systematig a strwythuredig mewn perthynas â phob un o feysydd craidd y cwricwlwm addysg athrawon, yna mae'n amlwg bydd angen iddynt gael yr hyfforddiant a'r adnoddau i ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwnnw. Dylai ysgol bartner AGA fod yn fodlon sefydlu diwylliant lle y mae addysg gychwynnol athrawon yn cael ei derbyn fel un o'i chyfrifoldebau craidd. O ystyried y disgwyliadau hyn, mae'n debygol, yn y dyfodol y bydd nifer llai o ysgolion yn cymryd rhan mewn addysg gychwynnol athrawon nag sydd ar hyn o bryd, ond gyda niferoedd uwch o athrawon dan hyfforddiant yn ymwneud â nhw mewn ffyrdd gwahanol.

Mae yna oblygiadau ar gyfer prifysgolion hefyd. Os mai prif dasgau prifysgolion yw darparu mynediad i athrawon dan hyfforddiant at wybodaeth broffesiynol nad yw ar gael fel arfer mewn ysgolion - hynny yw, at ymchwil, at theori ac at wybodaeth am ymarfer da ledled Cymru ac yn rhyngwladol - bydd angen i’w hysgolion addysg fod â’r strwythurau staffio, strategaethau datblygu staff a'r math o ‘ddiwylliant

---

[8] OECD (2012) Strong Performers and Successful Reformers in Education: Lessons from PISA for the United States http://www.oecd.org/pisa/46623978.pdf; BERA: RSA (2014) The Role of Research in Teacher Education: Reviewing the evidence. Interim report. London: BERA

ysgolheigaidd' a fydd yn sicrhau bod eu holl addysgwyr athrawon wedi'u paratoi i wneud y cyfraniadau hyn.

Mae goblygiadau hefyd ynghylch sut mae ysgolion a Sefydliadau Addysg Uwch yn gweithio gyda'i gilydd. Yn gyntaf, ar lefel y rhaglen, mae angen llunio'r rhaglenni fel bod yna gyfleoedd strwythuredig ar gyfer dwyn ynghyd y gwahanol fathau o wybodaeth broffesiynol a ddarperir gan bob partner. Mae angen mentora cyson wedi'i strwythuro'n dda ar athrawon dan hyfforddiant o fewn eu hysgolion; yn eu prifysgolion mae angen  darlithoedd, seminarau a gweithdai arnynt. Ond yn ogystal, bydd angen cyfleoedd arnynt, tra eu bod wedi'u lleoli yn yr ysgol, i ymgysylltu â'r mathau o wybodaeth sydd ar gael trwy brifysgolion; pan fyddant yn y brifysgol bydd angen cyfleoedd arnynt i ymgysylltu â'r math o wybodaeth ymarferol sy'n cael ei dysgu yn yr ysgol. Gellir cyflawni'r mathau hyn o ymgysylltu mewn amrywiaeth eang o ffyrdd - trwy benodiadau ar y cyd, trwy oruchwyliaeth ar y cyd, drwy 'astudiaeth gwers'[9] ffurfiol neu 'gylchoedd dysgu'[10], trwy aseiniadau ysgrifenedig, drwy ddyddiaduron myfyriol. Mewn amrywiaeth eang o ffyrdd, dylai rhaglenni gynnig cyfleoedd strwythuredig i athrawon dan hyfforddiant holi ynghylch yr hyn a ddysgir yn y cyd-destunau gwahanol hyn. Dylent gael eu herio a'u cwestiynu a'u dysgu nad oes atebion syml. Trwy'r broses hon maent yn dechrau mynegi eu dealltwriaeth eu hunain, eu 'damcaniaethau' eu hunain o ymarfer proffesiynol.

Mae yna hefyd oblygiadau ar gyfer cynllunio ar y cyd. Dim ond os yw prifysgolion a grŵp cynrychioliadol o ysgolion ('ysgolion partneriaeth arweiniol') yn cydgysylltu wrth gynllunio'r rhaglen yn ei chyfanrwydd, y ceir y cydlyniad sydd ei angen. Bydd sefydlu gweithdrefnau cynllunio rhaglen gydweithredol yn gofyn am ymdeimlad o 'gyd-berchnogaeth' y rhaglenni.

Yn olaf, mae angen atebolrwydd ar y cyd. Os yw addysg athrawon gwirioneddol gydweithredol yn mynd i gael ei chyflawni, yna mae'n rhaid i'r 'bartneriaeth' - y

---

[9] 'Astudiaeth Gwers yn fodel Japaneaidd ymchwil dan arweiniad yr athro y mae triawd o athrawon yn gweithio gyda'i gilydd i dargedu ardal a ddynodwyd i'w datblygu yn dysgu eu myfyrwyr. Gan ddefnyddio tystiolaeth sydd eisoes yn bodoli, cyfranogwyr y cyd ymchwilio, cynllunio, addysgu ac arsylwi cyfres o wersi, gan ddefnyddio trafodaeth barhaus, myfyrio a mewnbwn arbenigol i olrhain a mireinio eu hymyriadau.' http://tdtrust.org/what-is-lesson-study

[10] Mae 'cylchoedd dysgu' yn system o arsylwi grŵp sy'n cael ei hyrwyddo ar hyn o bryd fel dull dysgu proffesiynol yn ysgolion yr Alban.  Gweler http://www.teachingscotland.org.uk/professional-update/professional-learning/33-a-group-perspective.aspx

Sefydliad Addysg Uwch ynghyd â'i hysgolion partneriaeth arweiniol - gymryd cyfrifoldeb ar y cyd am y rhaglen. Mae angen iddynt weithio ar y cyd a bod yn barod i gael eu dwyn i gyfrif gan eu myfyrwyr, Estyn, Cyngor y Gweithlu Addysg a'r SAU sy'n dilysu eu rhaglenni.

# Adran B – Meini prawf ar gyfer achredu

Trefnir y meini prawf fel a ganlyn:

- Strwythurau a phrosesau rhaglenni
- Mewnbynnau rhaglenni
- Safonau rhaglenni (Deilliannau)

Mae'r adran ar **strwythurau a phrosesau rhaglenni** yn disgrifio rolau a chyfrifoldebau'r bartneriaeth SAU-ysgol ac yn nodi'r strwythurau rheoli a fydd yn ofynnol os yw rhaglenni i gael eu hachredu.

Mae'r adran ar **fewnbynnau rhaglenni** yn amlinellu'r hyn ddylai gael ei gynnwys mewn rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru.

Mae'r **safonau rhaglenni** yn ymgorffori Safonau Addysgu Llywodraeth Cymru mewn rhaglenni AGA. Dylid cysoni canlyniadau'r rhaglenni AGA gyda'r safonau hyn.

## 4. Strwythurau a phrosesau rhaglenni

Mae'r adran hon yn amlinellu'r gofynion ar gyfer arwain a rheoli rhaglenni AGA. Rhagwelir y bydd yr holl raglenni yn y dyfodol yn cael eu harwain gan 'bartneriaeth', sef SAU yn cydweithio'n agos â nifer o 'ysgolion partneriaeth arweiniol'. Y bartneriaeth hon a fydd yn cyflwyno'r rhaglen achredu. Yn ogystal â hyn, gall y bartneriaeth gydweithio â nifer o ysgolion partner eraill. Wrth gyflwyno eu rhaglen(ni) achredu, bydd yn ofynnol i bartneriaethau ddisgrifio eu strwythur arwain a rheoli, gan gynnwys sut bydd gwahanol fathau o ysgolion partner a SAU yn cydweithio'n effeithiol.

Bydd gan ysgolion partneriaeth arweiniol ran amlwg wrth recriwtio athrawon dan hyfforddiant, datblygu'r cwricwlwm AGA a darparu cyfleoedd datblygu ar gyfer staff SAU. Byddant yn cyfrannu at y gwaith o arwain o fewn y bartneriaeth ac yn cyfrannu'n llawn at y gwaith o sicrhau ansawdd a hunanwerthuso pob rhaglen.

Mae gan bob ysgol partneriaeth rôl allweddol yn galluogi i athrawon dan hyfforddiant addysgu, ymchwilio, fyfyrio a gwerthuso; nid ydynt i gael eu hystyried fel lleoliadau ar gyfer 'ymarfer addysgu' yn unig.

**4.1 Arwain a rheoli'r bartneriaeth**

I gael eich achredu, bydd angen gweledigaeth strategol wedi'i diffinio'n glir a strwythur arwain a rheoli wedi'i ddiffinio'n dda ar bob partneriaeth. Felly, dylai partneriaethau ddangos:

- sut mae'r SAU a'r ysgolion partneriaeth arweiniol yn rhannu'r dasg o ddatblygu rhaglenni, gan gynnwys rhannu atebolrwydd[11]
- y model ariannol ar gyfer cynnal y bartneriaeth
- sut mae'r rhaglenni AGA yn cyd-fynd â gwaith cynllunio strategol cyffredinol y SAU; sut mae'n cysylltu â rhaglenni eraill (AGA ac fel arall), o fewn y SAU a sut y bydd y SAU yn cefnogi'r gwaith o ailfodelu AGA
- sut bydd SAU yn penderfynu sut i gyllido pob rhaglen, a beth yw atebolrwydd y SAU o ran dyraniadau cyllideb a chynlluniau gwario
- sut bydd hunanwerthuso'n cyfrannu at wella darpariaeth yn barhaus [12]
- sut bydd data, gan gynnwys data ar gymwysterau derbyn athrawon dan hyfforddiant, yn cael ei ddefnyddio i fonitro darpariaeth a chodi safonau, gan gynnwys safonau derbyn
- sut y defnyddir y cydweithio â darparwyr AGA eraill yng Nghymru a thu hwnt i gefnogi a datblygu'r rhaglen a chodi safonau AGA ledled y wlad yn gyffredinol
- sut y cesglir safbwyntiau athrawon dan hyfforddiant ac ysgolion a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi datblygiad rhaglenni, gwella ansawdd a hunanwerthuso
- sut y nodir anghenion datblygu staff a sut y darperir datblygiad proffesiynol parhaus
- sut mae'r bartneriaeth yn cynnal dulliau rheoli mewnol ac yn gwarchod cywirdeb cofnodion athrawon dan hyfforddiant

---

[11] Dylid cyflwyno model cydweithredol wrth ymgeisio.

[12] Dylai hunanwerthuso gynnwys, yn rheolaidd ac o leiaf yn flynyddol, archwilio adroddiadau arholwyr allanol, datblygu a defnyddio data perfformiad ac ymchwil, yn ogystal â dulliau safoni a meincnodi eraill.

- sut mae mynd ati i sicrhau ansawdd, gan gynnwys wrth hyfforddi mentoriaid a gwella ansawdd ymgeiswyr.

Bydd yn ofynnol i bob partneriaeth ddangos tystiolaeth o gydweithio systematig a chynaliadwy rhwng ysgolion a SAU, er enghraifft, drwy weithio gyda chonsortia rhanbarthol. Anogir arloesedd.

Dylai Memorandwm Dealltwriaeth, y mae'r naill ochr a'r llall yn cytuno arno, amlinellu sut bydd y bartneriaeth yn gweithio, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau priodol SAU ac ysgolion. Dylid egluro cyfrifoldebau SAU ac ysgolion yn fanwl. Dylai llawlyfrau cyrsiau ar gyfer athrawon dan hyfforddiant, prifysgolion a staff ysgolion nodi rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd y SAU a'r ysgolion, fel y cytunir arnynt gan y bartneriaeth.

**4.2 Meini prawf ar gyfer cynnwys ysgolion yn y bartneriaeth**

Dylai'r gweithdrefnau a'r meini prawf ar gyfer dewis ysgolion i ymuno â'r bartneriaeth fod yn glir.

Wrth nodi ysgolion partneriaeth arweiniol, dylai'r SAU ystyried ysgolion effeithiol yn unig sy'n cael eu cydnabod o fewn eu rhanbarthau am ddarpariaeth o ansawdd uchel. Fel arfer, bydd yr ysgolion hyn wedi'u nodi gan Estyn a/neu yn y broses gategoreiddio genedlaethol.

Ar y cyfan, dylai pob partneriaeth gynnwys ysgolion o wahanol fathau, meintiau, cefndiroedd a lleoliadau er mwyn i bartneriaethau allu cynnig profiad mewn ysgol i bob athro dan hyfforddiant mewn o leiaf ddwy ysgol.

Dylai pob athro dan hyfforddiant, gan gynnwys y rhai sy'n dilyn llwybrau seiliedig ar gyflogaeth fel y Rhaglen Addysgu Graddedigion, gael y cyfle i wneud o leiaf draean o'u profiad mewn ysgol sy'n cael ei chydnabod am ddarpariaeth o ansawdd uchel.

**4.3 Rolau a chyfrifoldebau ym mhob ysgol bartneriaeth**

***4.3.1 Dull ysgol gyfan***

- Dylid meithrin dull ysgol gyfan o gefnogi athrawon dan hyfforddiant, dan arweiniad yr uwch dîm arweinyddiaeth ac arweinwyr eraill o fewn yr ysgol, gan gynnwys mentoriaid

- Dylai cymorth o fewn yr ysgol gynnwys mentora, goruchwyliaeth, adborth adeiladol ac asesu i ba raddau mae athrawon dan hyfforddiant wedi bodloni'r Safon yn ystod eu profiad yn yr ysgol
- Dylai athrawon dan hyfforddiant dderbyn cyfleoedd wedi'u strwythuro'n rheolaidd i fyfyrio ar eu profiad mewn ysgol a'i ddadansoddi, gan fanteisio ar fathau eraill o wybodaeth broffesiynol, gan gynnwys damcaniaeth, ymchwil a gwybodaeth am ymarfer mewn mannau eraill. Dylai hyn gynnwys cyfranogiad staff SAU.

### *4.3.2 Staff yr ysgol a chyfrifoldebau athrawon dan hyfforddiant*

- Mae cymorth o fewn yr ysgol yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol yn y bartneriaeth ddynodi uwch staff dynodedig wedi'u hyfforddi, uwch reolwyr yn ddelfrydol, fel cydgysylltwyr. Mae hefyd angen iddynt lunio strategaeth glir ar gyfer dethol a datblygu mentoriaid athrawon dan hyfforddiant.
- Dylai mentoriaid athrawon dan hyfforddiant fod yn ymarferwyr profiadol sydd wedi'u hyfforddi ac yn arbenigwyr ar gyfnod neu bwnc. Bydd ysgolion yn nodi sut byddant yn dewis, cynorthwyo a monitro eu mentoriaid.
- Dylid diogelu'r amser sydd gan fentoriaid i weithio gydag athrawon dan hyfforddiant.
- Dylai staff sy'n cael eu neilltuo'n benodol ar gyfer y bartneriaeth SAU-ysgol gael amser wedi'i ddiogelu i gyflawni eu cyfrifoldebau o fewn y bartneriaeth, gan gynnwys amser ar gyfer cynllunio a rheoli lle'n briodol.
- Dylai holl staff yr ysgol sy'n cymryd rhan reolaidd mewn AGA gael mynediad at raglenni hyfforddi mentoriaid o ansawdd uchel.
- Dylai staff mewn ysgolion partner nodi eu hanghenion dysgu proffesiynol fel addysgwyr athrawon a threfnu datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r SAU, neu rywle arall, fel sy'n briodol.
- Dylai ysgolion ddarparu cyfleoedd datblygu yn yr ysgol ar gyfer addysgwyr athrawon mewn SAU, yn ôl y gofyn.
- Ym mhob cyd-destun profiad mewn ysgol, yn ogystal ag arsylwi ar ystod eang o addysgu, dylai athrawon dan hyfforddiant gynllunio ac addysgu gwersi neu gyfres o wersi a derbyn adborth adeiladol.

- Dylai pob athro dan hyfforddiant, gan gynnwys y rhai sy'n dilyn llwybrau seiliedig ar gyflogaeth fel y Rhaglen Addysgu Graddedigion, gael cyflwyniad graddol i addysgu. Dylai hyn gynnwys cyfnodau arsylwi wedi'u cynllunio'n ofalus ac addysgu mewn parau gydag athrawon dan hyfforddiant eraill a gydag athrawon effeithiol sefydledig. Dylid ond disgwyl i athrawon dan hyfforddiant ysgwyddo cyfrifoldeb llawn am ddosbarthiadau yn raddol. Yn ystod y cyfnod cyntaf o brofiad mewn ysgol, ni ddylent ddysgu mwy na 30% o'r amserlen gyfan. Yn ystod y cyfnod profiad olaf mewn ysgol, ni ddylent addysgu mwy na 75% o'r amserlen. Yn eu cyflwyniadau, dylai partneriaethau nodi eu canllawiau i ysgolion ar y materion hyn.
- Dylai athrawon dan hyfforddiant gynnal gweithgareddau amrywiol nad ydynt yn ymwneud ag addysgu, gan gynnwys ymgysylltu â rhieni, gofalwyr, llywodraethwyr a chydweithwyr.
- Dylai ysgolion gefnogi athrawon dan hyfforddiant gan fod gofyn iddynt gymryd rhan mewn ymchwil gweithredol yn ystod eu profiad mewn ysgol.
- Dylai ysgolion ddarparu mwy o gefnogaeth i athrawon dan hyfforddiant sydd ei hangen, yn unol â gweithdrefnau'r bartneriaeth.

#### *4.3.3 Cyfleusterau ysgolion*

- Bydd angen i athrawon dan hyfforddiant gael mynediad i ofod gwaith priodol a defnydd TGCh, yn ddelfrydol ar lefel a ddarperir i aelodau staff llawn amser.
- Bydd angen i ysgolion sicrhau hefyd fod gofodau preifat ar gael ar gyfer mentora, gwaith grwpiau bach a seminarau.
- At ddibenion arbenigol, efallai y bydd yn ofynnol i'r SAU ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol i ddarparu lleoliadau realistig ar gyfer addysgu athrawon dan hyfforddiant.

## 4.4 Rolau a chyfrifoldebau SAU

### *4.4.1 Staff y SAU a datblygiad staff*

- Dylai'r gymhareb staff addysgu i athrawon dan hyfforddiant mewn SAU fod yn un aelod staff addysgu cyfwerth ag amser llawn i bob 15 o athrawon dan hyfforddiant.
- Dylai'r gymhareb staff llawn amser i ran-amser fod ar lefel ddigonol i gynnal rhaglen o ansawdd uchel. Dylai cyflwyniadau achredu gyfiawnhau'r gymhareb a nodi sut mae'r SAU yn sicrhau bod ei staff rhan-amser yn cael eu hintegreiddio'n llawn i'r rhaglen addysgu a'r adran/gyfadran addysg yn fwy cyffredinol.
- Dylai staff addysgu feddu ar gymhwyster ar lefel uwch na lefel achredu'r cwrs y maent yn ei addysgu; os nad yw hyn yn wir, dylent fod yn gweithio tuag at gymhwyster uwch. Bydd yn ofynnol i SAU amlinellu eu cynlluniau i sicrhau bod yr holl staff yma yn cyflawni cymhwyster perthnasol o fewn pum mlynedd. Ar y cyfan, dylai pob darlithydd a thiwtor fod wedi bod yn athrawon ysgol llwyddiannus.
- Dylai darlithwyr a thiwtoriaid sy'n cyfrannu at brofiad mewn ysgol gymryd rhan reolaidd yn y gwaith o ddatblygu staff, gan gynnwys eu datblygiad yn yr ysgol, er mwyn cefnogi athrawon dan hyfforddiant, cynnal safonau uchel a hysbysu asesiadau teg. Yn ogystal â hyn, dylai staff SAU gymryd rhan weithgar mewn rhaglenni datblygu proffesiynol sy'n berthnasol i'w rôl o fewn AGA.
- Dylai'r SAU ddarparu'r dysgu proffesiynol a allai fod yn ofynnol gan staff yr ysgol i gefnogi athrawon dan hyfforddiant yn effeithiol.
- Dylai pob darlithydd a thiwtor SAU fod yn weithgar ym maes ymchwil a chymryd rôl arweiniol wrth gymathu, cynnal, cyhoeddi a goruchwylio ymchwil. Bydd yn ofynnol i bartneriaethau ddangos tystiolaeth o sut mae staff addysgu SAU yn cael eu cefnogi i fynd ati'n weithgar i wneud gwaith ymchwil a dangos sut y bydd eu hymchwil yn hysbysu datblygiad eu rhaglenni AGA.

### *4.4.2 Cyfrifoldebau SAU dros athrawon dan hyfforddiant*

- Prif gyfrifoldeb SAU yw sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn profi rhaglen AGA o ansawdd uchel sy'n eu galluogi i fod yn athrawon newydd gymhwyso hyderus, cymwys ac ymroddgar.
- Dylai SAU gefnogi athrawon dan hyfforddiant i lunio a chynnal portffolio proffesiynol i gefnogi'r Pasbort Dysgu Proffesiynol.[13]
- Dylai SAU gefnogi athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol a'r iaith Cymraeg.
- Dylai SAU ddarparu mwy o gymorth i athrawon dan hyfforddiant sydd ei angen, yn unol â gweithdrefnau'r bartneriaeth.

### *4.4.3 Cyfleusterau SAU*

Dylai cyfleusterau priodol fod ar gael i gefnogi ymchwil, addysgu a dysgu. Fel arfer, dylai'r rhain gynnwys:

- darlithfeydd ac ystafelloedd adnoddau, fel labordai, mewn lleoliad priodol, o ansawdd – a'r nifer priodol ohonynt
- mynediad a lleoliadau ar gyfer pob rhaglen, sy'n briodol ar gyfer pob myfyriwr
- adnoddau a chyfarpar addysgu priodol ar gyfer holl feysydd y cwricwlwm
- cyfleusterau ac adnoddau llyfrgell, gan gynnwys adnoddau digidol, i ddiwallu anghenion athrawon dan hyfforddiant a staff
- cyfleusterau TGCh sy'n cefnogi cydweithio effeithiol gyda phob partner.

### *4.4.4 Diogelu athrawon dan hyfforddiant a'u lles*

- Dylai'r bartneriaeth ddarparu cyngor, cymorth ac arweiniad, gan gynnwys cwnsela, yn ogystal â gwasanaethau meddygol a gyrfaoedd.
- Dylai'r trefniadau diogelu a chwythu'r chwiban fod yn glir.

---

[13] Mae'r Pasbort Dysgu Proffesiynol yn e-borth, a gynhelir ar wefan Cyngor y Gweithlu Addysg. Bydd y Pasbort yn sail i lwybrau gyrfa ymarferwyr ac yn eu helpu i nodi'r cyfleoedd dysgu mwyaf priodol, eu cofnodi a'u pwyso a mesur er mwyn iddynt allu parhau i ddatblygu a gwella eu harferion ym mhob cam o'u gyrfa.'

## 5. Mewnbynnau rhaglenni

Wrth gyflwyno eu rhaglenni i gael eu hachredu, bydd yn ofynnol i bartneriaethau ddarparu manylion y canlynol:

- y fframwaith cysyniadol
- amcanion y cwrs
- cynllun y cwrs a’r meysydd astudio
- gofynion derbyn a gweithdrefnau dethol
- astudiaethau craidd
- astudiaethau proffesiynol ac addysgeg
- astudiaethau pwnc
- profiad mewn ysgol
- asesu
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- asesu athrawon dan hyfforddiant.

Trafodir y rhain isod.

### 5.1 Fframwaith cysyniadol

Dylai fframwaith cysyniadol clir wedi’i hysbysu gan werthoedd, egwyddorion ac ymchwil gyd-fynd â rhaglenni AGA. Dylai’r fframwaith hwn fod yn amlwg bob amser ym mhob rhan o’r rhaglen, er enghraifft, wrth ddewis cynnwys, strategaethau addysgu a dysgu, prosesau asesu ac effaith fwriedig y rhaglen ar addysgu a dysgu disgyblion ysgol. Dylai SAU ac ysgolion ddatblygu’r fframwaith ar y cyd.

### 5.2 Amcanion y cwrs

Prif amcan y rhaglen AGA yw paratoi athrawon dan hyfforddiant i fod yn ymarferwyr cymwys, meddylgar, myfyriol ac arloesol sy’n ymroi i ddarparu addysgu a dysgu o ansawdd uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion/myfyrwyr. Mae angen iddynt gael ei paratoi i gyflawni’r safonau proffesiynol perthnasol ar gyfer cofrestru gyda Cyngor y Gweithlu Addysg yng Nghymru.

Dylai athrawon dan hyfforddiant ddatblygu'r gwerthoedd, y wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol fel llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol a chynhwysiant cymdeithasol ac i gydweithio â chydweithwyr, cydweithwyr proffesiynol a rhieni. Dylent fod wedi ymroi i'w dysgu proffesiynol eu hunain, gan gynnwys ymgysylltu'n weithgar ag ymchwil ym maes addysg.

**5.3 Cynllun y cwrs a'r meysydd astudio**

Yn ogystal ag amcanion y cwrs, dylai cyflwyniadau ar gyfer achredu nodi sut y dylid darparu gwahanol elfennau o'r cwrs, megis wyneb yn wyneb, ar-lein neu drwy ddysgu cymysg. Dylai'r cyflwyniadau egluro hefyd sut mae dysgu athrawon dan hyfforddiant o ysgolion a SAU yn cael ei integreiddio.

Dylai rhaglenni AGA bennu cyfres o gymwyseddau dechreuwyr lefel uwch ar gyfer athrawon dan hyfforddiant, y gallant ychwanegu atynt gydol eu gyrfaoedd. Dylai rhaglenni ganolbwyntio ar ddatblygiad personol a chydnerthedd myfyrwyr, ynghyd â'u paratoi ar gyfer bywyd yn yr ystafell ddosbarth ac ar gyfer ymgysylltu'n weithgar â'r gymuned addysg ehangach.

Dylid cynllunio ac integreiddio astudiaethau craidd, astudiaethau proffesiynol ac addysgol, profiad mewn ysgol ac astudiaethau pwnc yn ofalus. Dylid eu cydbwyso'n effeithiol yn y rhaglen a dylai eu cydberthynas fod yn eglur.

Ar **raglenni ôl-raddedig blwyddyn** safonol, dylai profiad mewn ysgol gyfrif am oddeutu dwy ran o dair o'r rhaglen; ar **raglenni tair blynedd**, dylai astudiaethau pwnc a phrofiad mewn ysgol gyfrif am oddeutu traean o bob rhaglen. Ar lwybrau seiliedig ar gyflogaeth fel y Rhaglen Addysgu Graddedigion, bydd y gofynion yn amrywiol. Mae rhagor o fanylion ar y gofynion profiad mewn ysgol yn Atodiad 2.

**5.4 Gofynion derbyn a gweithdrefnau dethol**

Nodir manylion llawn y gofynion derbyn ar gyfer rhaglenni AGA, gan gynnwys y rhai ar gyfer llwybrau seiliedig ar gyflogaeth, yn Atodiad 3.

Mae'n rhaid i'r SAU a'r ysgolion ill dau gyfrannu at y broses o ddethol athrawon dan hyfforddiant ac mae'n rhaid i'r broses gynnwys cyfweliad unigol bob tro. Mae'n rhaid i'r broses bennu addasrwydd personol ymgeisydd i addysgu, ynghyd â'i alluoedd deallusol ac academaidd.

Hefyd, mae'n rhaid i bartneriaethau fodloni eu hunain bod gan ymgeiswyr y wybodaeth a'r sgiliau priodol mewn rhifedd, llythrennedd a chymhwysedd digidol.

### 5.5 Astudiaethau craidd

Bydd astudiaethau craidd yn defnyddio damcaniaethau, ymchwil ac adnoddau deallusol eraill amrywiol i ddatblygu gwybodaeth athrawon dan hyfforddiant a'u dealltwriaeth, ymysg pethau eraill, o:

- damcaniaethau ac ymchwil am addysgeg, datblygiad dynol a dysgu
- rôl asesu wrth addysgu a dysgu
- dylanwadau cymhleth ffactorau personol, cymdeithasol a diwylliannol ar athrawon a dysgwyr
- natur amrywiol a newidiol y boblogaeth ysgolion yng Nghymru a pha mor berthnasol yw hyn i addysgu a dysgu
- deddfwriaeth gyfredol, gan gynnwys dealltwriaeth o'r Cwricwlwm Cymreig a gofynion y Gymraeg
- hawliau disgyblion ysgol, gan gynnwys eu hawl i lais mewn materion sy'n ymwneud â'u bywydau
- cyfrifoldebau cytundebol, bugeiliol a chyfreithiol athrawon
- hanes addysg a pholisi addysg yng Nghymru
- y gwaith o drefnu a rheoli ysgolion yng Nghymru ar hyn o bryd a'r haenau atebolrwydd o fewn y system

### 5.6 Astudiaethau proffesiynol ac addysgeg

Dylai astudiaethau proffesiynol ac addysgeg ddefnyddio damcaniaethau, ymchwil a phrofiad uniongyrchol athrawon dan hyfforddiant mewn ysgolion i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau ymarferol mewn perthynas â'r canlynol, ymysg pethau eraill:

- rheoli a threfnu'r ystafell ddosbarth
- egwyddorion cynllunio cwricwlwm
- cynllunio cwricwlwm i ddiwallu anghenion *pob* dysgwyr
- addysgu llythrennedd a rhifedd yn effeithiol
- gwybodaeth am addysgeg pynciau a chynnwys addysgol

- cyfathrebu effeithiol, gan gynnwys cwestiynu
- cynllunio a defnyddio deunyddiau ar gyfer addysgu a dysgu i sbarduno, cefnogi a herio *pob* dysgwr
- defnyddio technolegau digidol
- diwallu anghenion disgyblion o gefndiroedd diwylliannol, ieithyddol, crefyddol ac economaidd gymdeithasol amrywiol
- diwallu anghenion disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion arbennig eraill
- egwyddorion asesu a sut i asesu'n effeithiol i gefnogi ac adrodd ar ddysgu disgyblion/ myfyrwyr
- defnyddio data, tystiolaeth o ymchwil ac ymholiadau proffesiynol wrth ddatblygu arferion effeithiol
- cydweithio yn yr ystafell ddosbarth a gyda chydweithwyr
- diogelu

## 5.7 Astudiaethau pwnc

### *5.7.1 Meysydd Dysgu a Phrofiad*

Mae gan y cwricwlwm cenedlaethol newydd yng Nghymru chwe Maes Dysgu a Phrofiad: celfyddydau mynegiannol; iechyd a lles; dyniaethau; ieithoedd; llythrennedd a chyfathrebu; mathemateg a rhifedd; a gwyddoniaeth a thechnoleg. Mae angen i bob athro dan hyfforddiant fod yn gyfarwydd â'r meysydd cwricwlaidd hyn, ynghyd â'u dibenion, sef yn bennaf bod plant a phobl ifanc yn datblygu yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- cyfranogwyr mentrus a chreadigol sy'n barod i gyfrannu'n llawn at fywyd a gwaith
- dinasyddion moesegol a gwybodus am Gymru a'r byd
- unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywydau llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.[14]

Bydd athrawon unigol, gan gynnwys arbenigwyr pwnc mewn ysgolion uwchradd, yn defnyddio'r gwahanol Feysydd Dysgu a Phrofiad wrth gynllunio. Dylid annog

[14] Llywodraeth Cymru (2015). *Cymwys am Oes:* Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes.

athrawon i weithio'n greadigol ac ar y cyd ar draws ffiniau pwnc, yng nghyd-destun pedwar diben y cwricwlwm, gan geisio osgoi creu ffiniau o ran addysgu pynciau. Dylai athrawon allu helpu plant a phobl ifanc i greu cysylltiadau ar draws eu haddysg, gan ddwyn ynghyd wahanol elfennau i'w harchwilio, er enghraifft, pynciau pwysig fel dinasyddiaeth, menter, gallu ariannol a chynaliadwyedd.[15]

Felly, mae angen i raglenni AGA sicrhau bod gwybodaeth athrawon dan hyfforddiant am bynciau a'u gwybodaeth am gynnwys addysgol ar y lefel angenrheidiol fel y gallant allu ymgysylltu â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad a sicrhau bod disgyblion/ myfyrwyr yn derbyn addysg o ansawdd uchel.

### *5.7.2 Cynnwys astudiaethau pwnc*

Dylai astudiaethau pwnc gynnwys:

- gwybodaeth am gynnwys sy'n briodol i gyfnod oedran dewisol yr athrawon dan hyfforddiant neu eu pwnc arbenigol, gan gynnwys cysyniadau allweddol, sylwedd a strwythur y pwnc.
- gwybodaeth am gynnwys addysgol, sy'n briodol i gyfnod oedran neu bwnc arbenigol.

Mae angen i geisiadau am achredu nodi sut maent yn nodi meysydd lle ceir gwendidau yng ngwybodaeth athrawon dan hyfforddiant am bwnc a nodi'r gefnogaeth benodol y maent yn ei darparu i wella gwendidau o'r fath.

### *5.7.3 Astudiaethau pwnc mewn gwahanol raglenni*

- mae'n rhaid i raglenni ar gyfer athrawon **cynradd** gynnwys astudiaethau digonol ym mhob un o'r chwe maes dysgu yn y cwricwlwm ysgolion cynradd i'w paratoi ar gyfer addysgu ar draws blynyddoedd yr arbenigedd o'u dewis.

---

[15] Donaldson, G. (2015), Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru

- Mae'n rhaid i raglenni **uwchradd israddedig** ddarparu gwybodaeth ddigon manwl ac eang ar gyfer y maes neu'r meysydd y mae'r athrawon dan hyfforddiant yn bwriadu eu haddysgu. Mae'n rhaid i'r rhaglenni hyn hefyd gynnwys cwricwlwm penodol i ddisgyblaeth ac astudiaethau addysgol ar gyfer pob maes y mae'r athro graddedig yn bwriadu ei addysgu.
- Dylai rhaglenni **uwchradd ôl-raddedig** baratoi athrawon dan hyfforddiant i addysgu eu pwnc(pynciau) arbenigol ar draws ystod oedran lawn yr ysgol uwchradd.

**5.8 Profiad mewn ysgol**

Dylai'r SAU a'i ysgolion partneriaeth arweiniol gynllunio ar y cyd y profiad mewn ysgol, yn union fel agweddau eraill ar y rhaglen AGA. Mae'n darparu cyfle hollbwysig i athrawon dan hyfforddiant ddatblygu eu sgiliau haddysgu ymarferol a phrofi a datblygu eu damcaniaethau personol eu hunain am addysgu a dysgu. Felly, mae'n rhan ganolog o'r rhaglen addysg athrawon.

Cyhyd ag y bo'n ymarferol, bydd y profiad mewn ysgol yn ymgorffori'r cyfleoedd canlynol ar gyfer athrawon dan hyfforddiant:

- **Addysgu**
  - arsylwi ac addysgu ochr yn ochr ag athrawon effeithiol;
  - addysgu ar y cyd gydag athrawon dan hyfforddiant eraill, lle'n briodol;
  - addysgu fwyfwy ar eu pen eu hunain, yn enwedig yng nghyfnod olaf y profiad mewn ysgol (gweler para 2 uchod).

- **Mentora**
  - y cyfle i weithio gyda mentor wedi'i hyfforddi;
  - y mentor yn arsylwi ar y myfyriwr a'r myfyriwr yn derbyn adborth rheolaidd.

- **Myfyrio a Datblygiad Proffesiynol**
  - cyfleoedd wedi'u strwythuro i ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion ysgol gyfan;

- cynnig cyfleoedd ffurfiol rheolaidd (er enghraifft, drwy ‘gylchoedd dysgu’ neu ‘astudiaeth gwers’) i archwilio eu haddysgu eu hunain ac eraill yng ngoleuni mathau eraill o wybodaeth broffesiynol sy’n deillio o ddamcaniaeth, o ymchwil ac o ymarfer mewn mannau eraill;
- darparu cyfleoedd i gofnodi eu myfyrdodau a’u ‘damcaniaethau’ newydd eu hunain o ymarfer mewn cyfnodolyn/portffolio.

### 5.9 Deddf Cydraddoldeb 2010

Dylai athrawon dan hyfforddiant fod yn gyfarwydd â Deddf Cydraddoldeb 2010, yn enwedig yr elfennau ohoni, fel darpariaeth y cwricwlwm, sy’n berthnasol i ysgolion. Mae’n rhaid i raglenni AGA sicrhau bod pynciau’n cael eu haddysgu mewn ffordd nad yw’n rhoi disgyblion/ myfyrwyr yn agored i wahaniaethu ac sy’n mynd i’r afael yn ddyfal ag anghydraddoldebau allweddol. Dylid annog athrawon dan hyfforddiant i feddwl am y ffyrdd y maent yn addysgu fel nad ydynt yn gwahaniaethu’n anfwriadol yn erbyn unrhyw ddisgyblion/myfyrwyr.[16]

### 5.10 Asesu athrawon dan hyfforddiant

Dylai’r asesiad o athrawon dan hyfforddiant:

- ddefnyddio mesurau amrywiol
- cael ei gynnal gydol y cwrs, gyda chyfnodau cynnydd wedi’u nodi’n glir
- cynnwys asesiad ffurfiannol a chrynodol.

Mae’n rhaid i athrawon dan hyfforddiant fodloni safonau elfen profiad mewn ysgol eu rhaglen os ydynt am ennill eu cymhwyster. Dylai athrawon dan hyfforddiant sy’n methu gwneud hynny gael cynnig sesiynau i gyfoethogi eu haddysgu a mentora pellach cyn cael cynnig un cyfle profiad mewn ysgol pellach. Dim ond dau gyfle y bydd athrawon dan hyfforddiant yn ei gael i lwyddo ym mhob profiad mewn ysgol.

[16] Addaswyd o What equality law means for you as an education provider in Wales: guidance for schools, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2014)

Dylai partneriaethau wneud darpariaeth benodol ar gyfer arweiniad gyrfaoedd ar gyfer athrawon dan hyfforddiant nad ydynt yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig yn ystod y rhaglen.

## 6. Safonau rhaglenni (Deilliannau)

Mae Safonau'r Rhaglen yn seiliedig ar Safonau Proffesiynol Llywodraeth Cymru ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (SAC) mewn rhaglenni AGA. Mae'r Safonau Proffesiynol yn hollbwysig ar gyfer pawb sydd ym myd addysg, gan sicrhau ymdeimlad cryf o ddiben a rennir.

Bydd angen i raglenni sicrhau bod deilliannau myfyrwyr y cyrsiau athrawon yn adlewyrchu'r safonau hyn yn fanwl mewn perthynas ag agweddau megis gwerthoedd proffesiynol, y cwricwlwm, addysgeg, asesu, yr amgylchedd dysgu, y cyd-destun ehangach, myfyrio a dysgu proffesiynol, arweinyddiaeth ac ymrwymiad myfyrwyr y cyrsiau athrawon i'w dysgu proffesiynol yn y dyfodol.

# Geirfa

**Achredu/Achrediad:** Mae achredu proffesiynol Rhaglen Addysg Gychwynnol Athrawon yn cydnabod bod y rhaglen yn bodloni gofynion [meini prawf achredu] y corff sy'n derbyn i'r proffesiwn addysgu, h.y. Cyngor y Gweithlu Addysg yng Nghymru. Mae'n achrediad sydd ar wahân i ddilysiad academaidd y rhaglen gan gorff dyfarnu cymwysterau, h.y. y SAU/Prifysgol, ond mae'n ei ddilyn.

**Dysgu Cymysg:** Mae dysgu cymysg yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio cyfuniad o ddysgu wyneb yn wyneb a dysgu ar-lein.

**Cymwyseddau:** Mae cymwyseddau athrawon yn cynnwys y wybodaeth, y sgiliau, yr agweddau a'r ymagwedd rhyngberthynol sy'n rhan o waith athrawon, gyda'u datblygiad cyfannol yn dechrau yn ystod yr ymgysylltu â'r rhaglen AGA.

**Fframwaith Cysyniadol:** Mae'r fframwaith cysyniadol yn egluro'r egwyddorion, y credoau a'r gwerthoedd, sy'n cael eu llywio gan ymchwil ac ymarfer, sy'n ategu'r gwaith o gynllunio a hwyluso'r rhaglen AGA gan bersonél y Bartneriaeth SAU/Ysgol.

**Continwwm Addysg Athrawon:** Mae'r continwwm addysg athrawon yn dynodi taith dysgu gydol oes athrawon, sy'n ymgorffori AGA, cyflwyniad i'r proffesiwn, y blynyddoedd cynnar a datblygiad proffesiynol parhaus, gyda phontio di-dor drwy'r yrfa addysgu.

**Cymhwysedd Digidol:** Mae cymhwysedd digidol yn cyfeirio at wybodaeth a dealltwriaeth athrawon dan hyfforddiant o dechnoleg a'r sgiliau a ddefnyddir fel cyfrwng ar gyfer addysgu a dysgu.

**Addysg Gychwynnol Athrawon:** Mae Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yn cyfeirio at y rhaglen ffurfiol gyntaf o baratoi ar gyfer y rôl o fod yn athro, y cam cyntaf ar y continwwm addysg athrawon.

**Mentor:** Mae mentor yn aelod o staff yr ysgol bartner sy'n arwain, cefnogi, goruchwylio a darparu adborth i athrawon dan hyfforddiant. Bydd y mentor, sy'n uwch aelod o'r ysgol fel arfer, yn ymarferydd profiadol wedi'i hyfforddi naill ai fel arbenigwr cyfnod neu bwnc. Darperir amser wedi'i ddiogelu i fentoriaid gyflawni cyfrifoldebau a dyletswyddau eu rôl.

**Proses Gategoreiddio Genedlaethol:** Mae'r System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion yn ystyried yr arweinyddiaeth, yr addysgu a'r dysgu sy'n digwydd yn ysgolion Cymru, mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ar sail mesurau perfformiad, hunanwerthuso gan ysgolion a chadarnhad o hunanwerthusiad yr ysgol gan Ymgynghorwyr Her y consortia addysg. Mae deilliannau'r data perfformiad a'r hunanwerthuso'n arwain at gategoreiddio pob ysgol, a bennir gan y consortia, ac a drafodir gyda'r ysgol a'i gymedroli gan grŵp safoni a sicrhau ansawdd i sicrhau cysondeb o fewn a drwy'r consortia.

**Partneriaeth:** Mae model partneriaeth addysg gychwynnol athrawon yn cynrychioli cytundeb ffurfiol rhwng SAU ac ysgolion partneriaeth arweiniol, a ategir gan y Memorandwm Dealltwriaeth, lle maent yn cytuno i gydweithio i gynllunio a hwyluso'r rhaglen AGA.

**Ysgolion Partneriaeth**: Bydd gan ysgolion partneriaeth arweiniol ran amlwg yn y broses o recriwtio athrawon dan hyfforddiant, datblygu'r cwricwlwm AGA a darparu cyfleoedd datblygu ar gyfer staff SAU. Byddant yn cyfrannu at arweinyddiaeth o fewn y bartneriaeth ac yn cyfrannu'n llawn at y gwaith o sicrhau ansawdd a hunanwerthuso pob rhaglen. Mae gan bob ysgol partneriaeth rôl allweddol yn galluogi athrawon dan hyfforddiant i addysgu, ymchwilio, myfyrio a gwerthuso; ni ddylid eu hystyried fel lleoliadau 'ymarfer dysgu' yn unig.

**Disgybl/Myfyriwr:** Plant a phobl ifanc yn yr ysgol.

**Consortia Rhanbarthol:** Sefydlwyd y pedwar Consortiwm Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl prosiect ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a rhanddeiliaid eraill i ad-drefnu gwasanaethau gwella ysgolion. Bellach, mae ganddynt y cyfrifoldeb o wella ansawdd deilliannau pobl ifanc drwy wella ansawdd addysgu a dysgu yn ein hysgolion ac ansawdd arweinyddiaeth yr ysgolion hynny. Mae'r pedwar Consortiwm Addysg Rhanbarthol ffurfiol yng Nghymru yn cwmpasu: Gogledd Cymru, De-orllewin a Chanolbarth Cymru, Canol De Cymru a De-ddwyrain Cymru.

**Athro dan hyfforddiant:** Mae athro dan hyfforddiant, y cyfeirir ato/ati weithiau fel "hyfforddai" neu fyfyriwr ymarfer dysgu, yn berson sy'n dilyn rhaglen addysg gychwynnol athrawon.

**Addysgwyr Athrawon:** Addysgwyr athrawon yw personél SAU ac ysgol sy'n cyfrannu at y gwaith o hwyluso rhaglen AGA.

# Cyfeiriadau

BERA: RSA (2014). *The role of research in teacher education: Reviewing the evidence. Interim report*. London: BERA; https://www.thersa.org/discover/publications-and-articles/reports/the-role-of-research-in-teacher-education-reviewing-the-evidence/.

Donaldson, G. (2015). *Dyfodol llwyddiannus - Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*; http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2014). *What equality law means for you as an education provider in Wales: a guide for schools*; https://www.equalityhumanrights.com/cy/node/606

Furlong, J. (2015). *Addysgu Athrawon Yfory*; http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/wagreviews/teaching-tomorrows-teachers/?skip=1&lang=cy

OECD (2012). *Strong performers and successful reformers in education: Lessons from PISA for the United States*; http://www.oecd.org/pisa/keyfindings/pisa-2012-results-united-states.htm

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003). *Datblygu'r Cwricwlwm Cymreig;* http://learning.gov.wales/resources/browse-all/developing-the-curriculum-cymreig/?skip=1&lang=cy

Llywodraeth Cymru (2014). *Cymwys am Oes: Cynllun gwella addysg;* http://gov.wales/topics/educationandskills/allsectorpolicies/qualified-for-life-an-educational-improvement-plan/?skip=1&lang=cy

Llywodraeth Cymru (2015). *Cwricwlwm i Gymru – Cwricwlwm am Oes*; http://gov.wales/topics/educationandskills/allsectorpolicies/qualified-for-life-an-educational-improvement-plan/?skip=1&lang=cy

# Atodiad 1: Rôl Estyn ac arolygu AGA yng Nghymru

Mae gan Estyn gyfraniad unigryw i'w wneud i gynnal a gwella ansawdd pob math o ddarpariaeth addysg yng Nghymru, gan gynnwys AGA. Mae ganddo ddwy ffordd o wneud hyn; yn gyntaf drwy ei waith yn arolygu darpariaeth AGA yn uniongyrchol ei hun' ac yn ail drwy arolygu ysgolion lle ceir AGA. Ar ôl i'r gweithdrefnau achredu newydd a amlinellir yn y ddogfen hon gael eu rhoi ar waith, bydd rôl Estyn mewn perthynas ag AGA yn parhau gyda rhai addasiadau i weithdrefnau cyfredol.

**Arolygu darpariaeth AGA**

Bydd arolygiadau Estyn o ddarpariaeth AGA yn cael eu cynnal bob pum mlynedd, yn ddelfrydol flwyddyn cyn ail-achredu gyda Chyngor y Gweithlu Addysg er mwyn i adroddiadau arolygu allu cyfrannu a chanllawiau achredu yn y dyfodol. Bydd arolygiadau'n cael eu cynnal drwy ddefnyddio fframwaith ac arweiniad arolygu diwygiedig sy'n ystyried yn benodol fframwaith achredu Cyngor y Gweithlu Addysg. Bydd yr arolygiad yn cwmpasu cyfranogiad pob partner mewn perthynas â'r rhan y maent yn ei chwarae yn y rhaglen AGA. Felly, bydd yn ystyried lefelau cyfrifoldeb cryfach ysgolion, gan gynnwys eu rôl yn galluogi athrawon dan hyfforddiant i fodloni Safonau Proffesiynol. Bydd hefyd yn cynnwys rôl ysgol yn y gwaith o gynllunio a datblygu'r gwaith o arwain a rheoli'r rhaglen AGA ar y cyd.

Bydd canlyniadau arolygiadau'n cael eu hadrodd i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ac i Fwrdd Achredu Addysg Athrawon Cyngor y Gweithlu Addysg.

Yn ogystal â hyn, bydd Estyn yn ymweld â darparwyr AGA bob blwyddyn. Bydd dau ddiben penodol i'r ymweliadau hyn, yn dibynnu ar statws y darparwr.

Lle mae rhaglen benodol wedi'i hachredu 'dros dro' gan y Bwrdd Achredu Addysg Athrawon, bydd yr arolygiad yn un ffurfiol, gyda ffocws penodol ar y materion hynny sydd wedi'u nodi fel rhai sydd angen eu datblygu ymhellach cyn i'r Bwrdd ei hachredu'n llawn. Bydd Estyn yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd ac yna bydd y Bwrdd yn ystyried a ddylid rhoi achrediad llawn ai peidio.

Ar ôl i raglen gael ei hachredu'n llawn gan y Bwrdd Achredu Addysg Athrawon, bydd Estyn yn cynnal ymweliadau 'monitro' blynyddol. Bydd yr ymweliadau hyn yn cael eu

cynnal ar sail colegol, gan adrodd i'r Bwrdd. Os oes gan Estyn bryderon difrifol yn ystod yr ymweliadau hyn, gall y Bwrdd ofyn i Estyn gynnal arolygiad llawn.

Gall Estyn gynnal un math arall o arolygiad hefyd: 'Adolygiadau Thematig'. Bydd adolygiadau o'r fath, y gellir cael eu cyfyngu i ddarpariaeth AGA neu gyfuniad o AGA a darpariaeth ysgol, yn canolbwyntio ar faterion penodol fel addysgu llythrennedd cynnar neu ymateb i anghenion dysgu ychwanegol. Fel arfer, ni fydd Estyn yn adrodd ei ganfyddiadau o'r adolygiadau hyn i'r Bwrdd Achredu Addysg Athrawon, ond byddent ar gael gan gyfrannu at unrhyw adolygiad parhaus o'r Meini Prawf Achredu.

**Arolygu Ysgolion lle ceir AGA**

Fel y nodwyd yn yr adroddiad 'Addysgu Athrawon Yfory - opsiynau ynglŷn â dyfodol AGA yng Nghymru', mae gallu Estyn i gydnabod yn llawn gyfraniad ysgolion at AGA yn ystod arolygiad o'r ysgol yn fater allweddol yn natblygiad darpariaeth yn y dyfodol. Bydd hyn yn bosibl nawr o dan drefniadau newydd ar gyfer arolygiadau ysgolion sy'n cael eu datblygu gan Estyn ar hyn o bryd.

O fis Medi 2017, mae Estyn yn ystyried cyflwyno trefniadau arolygu newydd a mwy hyblyg ar gyfer ysgolion; mae hyn yn debygol o gynnwys model arolygu craidd cyffredin llai. O dan y trefniadau hyn, byddai arolygwyr Estyn yn ystyried effaith datblygiad proffesiynol (gan gynnwys cyfraniadau AGA) ar effeithlonrwydd staff ac ar ddatblygiad darpariaeth. Yn ogystal â hyn, o dan 'arweinyddiaeth a rheolaeth', byddai Estyn yn ystyried pa mor dda mae arweinwyr yn gweithio gyda darparwyr eraill i ddatblygu diwylliant o gydweithio a gwella o fewn ac ar draws darparwyr. Lle'n berthnasol, byddai hyn yn cynnwys arolygu trefniadau'r ysgol ar gyfer AGA.

Gall y model newydd gynnwys ffocws thematig hefyd. Bob blwyddyn, mae Estyn yn ystyried y syniad o ddewis dwy neu dair thema mewn meysydd o bwysigrwydd cenedlaethol i ddarparu safbwynt Cymru gyfan ar gyfer yr adroddiad blynyddol a hysbysu adroddiadau thematig a chyngor i Lywodraeth Cymru. Gallai'r ffocws thematig ddarparu cyfleoedd i ysgolion sy'n darparu addysg gychwynnol athrawon ddangos sut maent yn cyfrannu at y ffocws cenedlaethol drwy ddatblygiad proffesiynol athrawon newydd.

# Atodiad 2: Gofynion trosfwaol – meini prawf y mae'n rhaid i bob rhaglen astudio eu bodloni

Mae'n rhaid i bob darparwr achrededig:

- gynllunio cynnwys, strwythur a darpariaeth cyrsiau AGA yn unol ag ysbryd gofynion y meini prawf achredu a'r fframwaith cysyniadol
- asesu cynnydd athrawon dan hyfforddiant yn rheolaidd ac yn fanwl i'w galluogi i gyflawni neu ragori ar ddeilliannau SAC cyn cadarnhau i'r corff priodol[17] y gellir eu hysbysu eu bod yn ymarferwyr cymwys;
- paratoi pob athro dan hyfforddiant i addysgu ar draws o leiaf ddwy ystod oedran cwricwlwm ddilynol fel y diffinnir gan y continwwm dysgu
- asesu ac archwilio sgiliau personol athrawon dan hyfforddiant mewn llythrennedd a rhifedd yn rheolaidd a manwl yn ystod eu hyfforddiant a phan fyddant yn cael eu hasesu yn erbyn safonau proffesiynol SAC;
- sicrhau bod pob athro dan hyfforddiant yn treulio o leiaf y cyfnodau canlynol mewn o leiaf dwy ysgol bartneriaeth gyda chefnogaeth y consortia addysg, gan gydnabod lle'n briodol y gallai profiad gwaith blaenorol athro dan hyfforddiant o weithio gyda dysgwyr gyfrif tuag at y cyfansymiau hyn:
    - 32 wythnos ar gyfer pob rhaglen israddedig gynradd pedair blynedd
    - 24 wythnos ar gyfer pob rhaglen israddedig dwy a thair blynedd
    - 24 wythnos ar gyfer pob rhaglen israddedig uwchradd
    - 24 wythnos ar gyfer pob rhaglen israddedig gynradd.

- Sicrhau bod gan bob athro dan hyfforddiant brofiad mewn o leiaf ddau leoliad ysgol cyferbyniol.
- Sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn gwneud gweithgarwch ymchwil academaidd a/neu ymarfer perthnasol a sicrhau bod pob athro dan hyfforddiant yn cael o leiaf 60 diwrnod o hyfforddiant AU/ysgol bob blwyddyn academaidd.
- Sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn cael eu hyfforddi i addysgu llythrennedd a rhifedd fel sy'n briodol a bod hyn yn rhan ganolog o'r cwrs;

---

[17] Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, y corff priodol dan Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012 yw Cyngor y Gweithlu Addysg (cynnwys diben deddfwriaeth sylfaenol – Rheoliadau Swyddogaethau Cyngor y Gweithlu Addysg Cymru 2012 fel y'i diwygiwyd.

- Meithrin gallu drwy gyfrannu at ddatblygu gwerthuso ac ymchwil sy'n cael eu llywio gan weithredu fel rhan o'u darpariaeth cwrs mewn lleoliadau AU ac ysgol;
- Sicrhau bod gan athrawon dan hyfforddiant fynediad i Basbort Dysgu Proffesiynol a'u bod yn cael eu hysbysu am y trefniadau statudol ar gyfer sefydlu athrawon newydd gymhwyso a'n bod wedi'u cynorthwyo i baratoi ar gyfer y rhain;
- Sicrhau bod myfyrwyr yn gyfarwydd â'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf ar ddiogelu plant, diogelu, egwyddorion CCUHP, Iechyd a Lles;
- Sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn profi ac yn ymarfer methodolegau addysgu creadigol a dulliau asesu amrywiol ac yn gallu defnyddio'r rhain ar draws pob pwnc a maes dysgu a phrofiad.

# Atodiad 3: Gofynion derbyn ar gyfer athrawon dan hyfforddiant yng Nghymru[18]

I gael eu derbyn, mae'n rhaid i bob darparwr cwrs AGA achrededig fod yn fodlon bod gan ddarpar athrawon dan hyfforddiant:

- yr addasrwydd, y gallu a'r gwydnwch i fodloni'r deilliannau SAC gofynnol erbyn diwedd eu rhaglen AGA;
- eu bod yn meddu ar y priodweddau personol a deallusol priodol i fod yn ymarferwyr rhagorol;
- eu bod wedi cyflawni'r cymwysterau gofynnol i gael eu derbyn ar gyfer y cyfnod astudio/pwnc, gan gynnwys safon sy'n gyfwerth â gradd B yn yr arholiad TGAU Saesneg a/neu Gymraeg ac mewn Mathemateg i gefnogi Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Llywodraeth Cymru;
- ar gyfer rhaglenni AGA cyfnod sylfaen/ystod oedran cynradd, eu bod wedi cyflawni safon sy'n gyfwerth â gradd C yn yr arholiad TGAU mewn pwnc gwyddoniaeth;
- eu bod wedi'u fetio i sicrhau nad oes ganddynt gefndir troseddol a allai eu hatal rhag gweithio gyda phlant neu bobl ifanc sy'n agored i niwed, neu fel ymarferwyr addysg; a sicrhau nad yw athrawon dan hyfforddiant wedi'u gwahardd yn y gorffennol rhag addysgu neu weithio gyda dysgwyr; (mae diogelu yn ofyniad cyfreithiol);
- eu bod yn gallu darllen yn effeithiol a chyfathrebu'n glir a chywir drws gyfrwng y Saesneg a/neu Gymraeg, yn llafar ac yn ysgrifenedig;
- eu bod yn cael eu hasesu wrth gael eu derbyn fel unigolion sydd â sgiliau swyddogaethol personol priodol mewn llythrennedd a rhifedd sy'n gymwys i addysgu proffesiynol a chyd-destun dysgu;
- Os ar gyrsiau ôl-raddedig AGA, eu bod yn meddu ar radd gyntaf gan sefydliad addysg uwch yn y Deyrnas Unedig neu gymhwyster cyfwerth [19];

---

[18] Mae gofynion derbyn a dethol myfyrwyr yn safonau gofynnol. Efallai y bydd gan ddarparwyr AGA achrededig unigol feini prawf ychwanegol y byddant am eu defnyddio a gallant wneud hynny cyn belled â bod y meini prawf gofynnol yn cael eu bodloni neu y rhagorir arnynt.

[19] Bydd angen i ymgeiswyr sydd â Gradd Sylfaen ategu'r cymhwyster hwn gydag o leiaf 60 credyd ar Lefel 3 AU.

- fel rhan o'r gweithdrefnau dethol, ac ar y cyd ag ysgolion partner, eu bod wedi cymryd rhan mewn profion addasrwydd a chyfweliadau unigol a grŵp i asesu eu haddasrwydd i fod yn athrawon rhagorol.

# SL(5)071 – Cod ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 (taliadau uniongyrchol a dewis o lety) a Rhan 5 (codi ffioedd ac asesiadau ariannol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## Cefndir a Phwrpas

Cyhoeddir y cod ymarfer hwn o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y "Ddeddf"). Rhaid i awdurdodau lleol, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, weithredu yn unol â'r gofynion a geir yn y cod hwn.

## Gweithdrefn

Mae'r weithdrefn negyddol ddrafft a nodir yn adran 146 o'r Ddeddf yn darparu:

- na chaniateir i Weinidogion Cymru ddyroddi'r cod ymarfer hwn nes i 40 o ddiwrnodau fynd heibio ers y dyddiad y gosodwyd y drafft gerbron y Cynulliad, ond
- na chaniateir i Weinidogion Cymru ei ddyroddi os bydd y Cynulliad, cyn diwedd y cyfnod hwnnw, yn penderfynu na ddylai'r cod ymarfer gael ei ddyroddi.

## Craffu dan Reol Sefydlog 21.7

Nid yw'r cod ymarfer yn offeryn statudol felly nid yw'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

Mae'r Pwyllgor yn ystyried y cod ymarfer ac yn cyflwyno adroddiad arno o dan:

- Reol Sefydlog 21.7(i): fel is-ddeddfwriaeth a osodir gerbron y Cynulliad;
- Rheol Sefydlog 21.7(v): fel mater deddfwriaethol cyffredinol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru.

## Pwyntiau adrodd

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r cod ymarfer.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

8 Mawrth 2017

**Sut y mae dulliau rhyng-lywodraethol wedi effeithio ar ddatblygiad y setliad datganoli.**

1. Cyn ateb y cwestiwn ar ddulliau rhyng-lywodraethol mae'n bwysig i edrych ar hanes y berthynas rhwng adrannau Llywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru. Efallai, mae'r peth cyntaf i nodi ydi nad oes yna ddealltwriaeth gywir o natur datganoli ymysg gweision sifil Llundain nac aelodau o'r Llywodraeth ychwaith. Mae hyn yn creu dryswch ac oedi di-angen pan y mae Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn mynnu newid deddfwriaethol. O bosib hefyd mae rhan o'r broblem ydi natur y setliad presennol oherwydd cymhlethdod y model ble mae rhai meusydd polisi yn cael eu rhannu cydrhwng y ddau ddeddfwrfa. Cofiwn am y tri sialens Goruchaf Lys a oedd, i bob pwrpas, yn ceisio esboniad i'r cwestiynau dyrys hyn. Rhaid oedd i'r barnwyr yn y Goruchaf Lys werthuso'r setliad presennol gan geisio llunio ble y mae'r ffiniau yn bodoli.

2. Fel mae'r Pwyllgor yn ymwybodol un o'r achosion yma oedd yr achos yn ymwneud a chyflogau gweithwyr amaethyddol a dymuniad Cymru i barhau efo corff fel Bwrdd Cyflogau Amaethyddol a ddiddymwyd gan Lywodraeth San Steffan. Cawsom sefyllfa ble yr oedd bron bopeth yn ymwneud ag amaeth wedi ei ddatganoli ond ar fater mor sylfaenol a chyflogaeth dywed Llywodraeth y Deyrnas Unedig mae mater iddynt hwy oedd hyn. Mae'n anodd gweld sut oedd hi'n bosib i gyfiawnhau eu safiad gan ystyried pa mor greiddiol i'r sector amaethyddol, a'r economi yn deillio ohono, y mae'r cwestiwn o lefelau cyflog.

3.  Ar ôl dau achos arall, fe sylweddolwyd bod yn rhaid gweithredu eto ar newid cyfansoddiadol i osgoi gorfod mynd ac achosion niferus drudfawr gerbron y Goruchaf Lys.

4.  Felly dyma dderbyn bod angen newid yr oedd llawer ohonom wedi dadlau o'i blaid ers rhai blynyddoedd sef y Model Neilltuedig tebyg i'r hyn a weithredir ers rhai blynyddoedd yn Senedd yr Alban.  Mae'r newid hwn yn golygu bod meusydd polisi wedi'w datganoli'n llwyr oni neilltuwyd y maes hwnnw.  Yn ddi-os, fe ddylid gweld llai o sialensau yn mynd i'r  Llysoedd pan weithredir Y Ddeddf Cymru arfaethedig, a da o beth fydd hynny.

5.  Un o'r elfennau ydi'r uchod.  Y llall ydi nad oes digon o hyfforddiant wedi cael ei roi i weision sifil San Steffan nac ychwaith i Weinidogion y Llywodraeth yno ar sut y mae y setliad i fod i weithio yn hwylus.  Mae'n ddrwg gennyf ddweud, ond mae'n amlwg i mi nad oes llawer o ddiddordeb gan y cyfeillion yma yn yr holl fater o ddatganoli.

6.  Er engraifft, pan fy cwynion am y ffaith fod ymgynghoriad gan yr Adran Cyfiawnder wedi mynd allan i gyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr yn uniaith Saesneg nid oedd gan y Gweinidogion syniad am Ddeddf yr Iaith Gymraeg, a'r angen am ddarpariaeth ddwyieithog yng Nghymru – yr esgus oedd "mater i'r Cynulliad yw'r iaith Gymraeg".  Ia wrth gwrs, ond tra bo'r Adran Gyfiawnder  yn tra arglwyddiaethu ar faterion cyfiawnder yng Nghymru mae'n  fater iddynt hwy hefyd!  Pwynt amlwg a

sylfaenol ond un nad oedd Gweinidogion yr Adran Gyfiawnder wedi crybwyll na deall.

7. Gofid i mi ydi bod rhai adrannau Llywodraethol yn camu'n ôl oddiwrth y Gymraeg. Deng mlynedd a mwy yn ôl roedd y Swyddfa Gartref yn ddeddfol yn cyfieithu pob dogfen bolisi ac ymgynghoriad ond erbyn hyn maent hwythau yn peidio gan amlaf. Tydi hyn ddim yn argoeli'n dda am gydweithrediad hapus rhwng y ddau ddeddfwrfa.

8. Tra felly rwyf yn croesawu'r Model Neilltuol arfaethedig – mae'n rhaid deall na fydd y newid yma yn dod a newid yn niwylliant llywodraeth y Deyrnas Gyfunol ac mae gwir angen hynny wrth symud ymlaen.

9. Gobeithiaf na welwn eto yr angen i unrhyw gyfraith ddrafft o Gymru gael ei danfon i bob adran Llywodaeth y Deyrnas Gyfunol pam fo'r newid honno yn effeithio ddim ond ar un maes polisi. Mae'n anhygoel o beth ond dyna fu yn digwydd gan greu mwy o ddryswch a rhagor o oedi - dim rhyfedd bod anniddigrwydd yng Nghaerdydd o ystyried yn y gorffennol bod un rheoleiddiad bach yn ymwneud a newid bychan ym myd amaeth wedi cymeryd 15 i 18 mis i weld golau dydd ar y llyfr statud yng Nghaerdydd, a hynny'n bennaf oherwydd i'r drafft orfod cael ei gymeradwyo gan bob Adran o'r Llywodraeth. Mae engreifftiau fel yna yn dwyn anfri ar y ddau Sefydliad ac yn gwneud hi'n annos i gyd-symud a chydweithredu er lles pobl Cymru.

10. Rhaid cofio, wrth gwrs, y bydd aml i faes llywodraethol heb ei eithrio ac felly bydd angen y cydweithrediad yma hyd yn oed o dan y model arfaethedig newydd sy’n gynnwysiedig yn Y Ddeddf Cymru dichonadwy.

**<u>Sut y mae cysylltiadau rhyng-lywodraethol wedi datblygu ac esblygu, yr hyn a oedd yn llwyddiannus, ac y mae'r cysylltiadau hyn wedi effeithio ar y setliad datganoli.</u>**

1. Pan oeddwn yn Aelod o Bwyllgor Dethol Cyfiawnder y Senedd yn Llundain rhan o orchwyl gwaith y Pwyllgor eithaf pwerus hwnnw oedd adrodd ar Lywodraethu Da yn y tiroedd a enwyd y Tiriogaethau Tramor. Yn eu mysg y mae Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel – tra yn ymweld a Llywodraeth a phrif gyfreithwyr Jersey a Guernsey fe glywais llawer o gwyno ganddynt bod cyfreithiau drafft ganddynt yn disgyn i rhyw bwll di-waelod pan oeddynt yn gorfod danfon y drafftiau i San Steffan. Roedd hyn, a credaf ei fod yn parhau heddiw , yn bwnc llosg ac yn gynnen fawr yn eu perthynas a Llywodraeth Llundain. Roedd hyn yn fwy poenus i Ynysoedd y Sianel oherwydd yn aml newidiadau yn ymwenud a marchnadoedd arian oeddynt ac wrth gwrs mae rheini yn gyfrifol am ran helaethaf o'u economiau. Ymhellach, fel mae pawb yn gwybod, mae angen symud yn gyflym iawn i wneud newidiadau o'r fath os nad ydynt am fethu a bod yn gystadleuol yn y farchnad fuddsoddi/ariannol byd eang.

2. Dywedwyd wrthyf eu bod hwythau yn gorfod mynd i'r Llysoedd er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Llundain yn symud pethau yn gynt ac yn dangos mwy o awch i gydweithredu'n briodol efo nhw.

3. Pan rwyf yn sôn am “ddiwylliant” gweision sifil a Gweinidogion Llundain gobeithio bod profiadau Caerdydd a St Helier ac eraill yn esbonio fy nefnydd o’r gair hwnnw.

4. Dagrau’r sefyllfa ydi bod y diffyg cydweithrediad parod uchod yn bodoli ers cenedlaethau wrth gwrs. Efallai eto yn cyfiawnhau fy nefnydd o’r gair diwylliant.

5. Mae’n ffaith bod angen cryn amynedd a pheth amser i greu newid mewn diwylliant ond y mae gwir angen am newid yn Llundain i sicrhau ymarfer da a chydweithrediad efo gweision sifil a Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

6. Rhag ofn fy mod yn swnio’n rhy negyddol mae’n siwr gen i bod yna engreifftiau o gydweithredu da yn y gorffennol agos. Cadarnhau mae hynny bod angen cydweithredu da yn barhaus rhwng y ddau Sefydliad.

7. Un peth i ddweud ydi bod ymagwedd Llundain yn anffodus – tydi Llundain ddim yno i geisio gwadu dyheadau Cymru ond yn hytrach i’w hyrwyddo yn gyson ac i fod yn barod i gynnig gwelliannau os yn addas. Ofnaf mae “ni ŵyr orau” sydd yn teyrnasu yng nghoridorau San Steffan ac mae’n rhaid iddynt sylweddoli bod gweithredu cyson a da yn gorfod cael eu seilio ar berthynas barchus a phartneriaeth cydradd neu gyfartal. Dylai’r “fam Senedd” ystyried bod ei phlentyn Cymreig wedi dod i aeddfedrwydd ac y dylid ymwneud a hi/o mewn modd barchus ac aeddfed.

**<u>Sut y mae cysylltiadau rhyng-seneddol wedi esblygu, cyflwr presennol y cysylltiadau hyn, a sut y gellid eu datblygu ymhellach o ran y gwaith o ddatblygu deddfwriaeth cyfansoddiadol a chraffu arni.</u>**

1. Gadewais San Steffan ym Mai 2015 ac felly nid oes gennyf dystiolaeth am yr hyn sydd wedi bod yn digwydd dros y ddwy flynedd diwethaf yma.

2. Yr awgrym sydd gen i yw y dylid trefnu seminarau cyson rhwng y gweision sifil yn y ddau Sefydliad er mwyn sicrhau dealltwriaeth dyfnach o natur bresennol y setliad cyfansoddiadol. Mae dyfodiad Mesur Cymru, fe dybiwn, yn bwynt da i gychwyn ar y gwaith o ddifrif er mwyn sichrau bod pawb yn deall eu rôl yn y broses, yn arbennig ble y mae maes polisi yn parhau i fod yn rhannol yn Llundain a Chaerdydd. Mae hyn yn bwysig iawn er sicrhau bod y sianelau yn glir, fel petae. Mae'n bwysig hefyd i osgoi y problemau sydd yn parhau i boeni'r Tiriogaethau Tramor fel y soniais amdanynt uchod.

3. Un mater pwysig ar gyfer y dyfodol yw i sefydlu cyrsiau arbennig i weision sifil Cymreig . Mae Ecole Nationale d'Administration ym Mharis yn fyd enwog ac yn bodoli ers canrifoedd. Efallai mae dyma fuasai'r uchelgais mwyaf. Ond o ddifrif, rydym yn byw mewn hinsawdd ym myd addysg bellach ble mae partneriaethau rhwng Prifysgolion yn cael eu cymell. Rwyf yn Aelod o Gyngor Prifysgol Aberystwyth ac fe wn am fanteision partneru gyda prifysgolion eraill ar brosiectau a'r arian mae hyn yn ei ddenu. Pam, felly, na fyddai dwy adran brifysgol Gymreig yn dod at eu gilydd i lunio cwrs o'r fath. Yn ddi-os mi fyddai hyn yn gam

sylweddol iawn at greu deddfwriaeth gyfansoddiadol gref a phwrpasol i Gymru efo buddiannau pobl Cymru bob amser yn symbyliad canolog. Yn nhyb llawer mae creu cadre o weision sifil Cymreig yn ganolog i dŵf a llwyddiant y broses ddemocrataidd yma yng Nghymru.

4. Fe wn bod sustem o secondiad o Gaerdydd i Lundain yn bodoli ond mae'r sawl sydd yn mynd dros dro i Lundain yn mynd i gael ei drwytho/thrwytho mewn arferion San Steffan yn hytrach nag arferion Caerdydd. Tydi hynny, wrth gwrs, ddim i ddweud bod llawer o arferion da i'w dysgu yn Llundain ond â ydynt yn rhai hollol berthnasol i ddeddfwriaeth tra wahanol ym Mae Caerdydd? Rhaid deall bod y gwahaniaethau yma am barhau ac mae'n rhaid i bobl werthfawrogi gofynion y ddeddfwrfa Gymreig.

5. Y negeseuon at y dyfodol – rhagor o gyd-gysylltu cyson priodol ac amserol a'r cysylltiadau rheolaidd rheiny wedi'w seilio ar barch a phartneriaeth cydradd a chyfartal.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon